

Dim Drws

Anghywir: dod â
gwasanaethau
ynghyd i
ddiwallu
anghenion
plant.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cynnwys

NODYN AR GYD-DESTUN CYHOEDDI'R ADRODDIAD HWN – MEHEFIN 2020	3
RHAGAIR GAN SALLY HOLLAND, COMISIYNYDD PLANT CYMRU	5
NEGESEUON ALLWEDDOL	7
BETH YW BYRDDAU PARTNERIAETH RHANBARTHOL?	9
CYFLWYNIAD – DIM DRWS ANGHYWIR	10
PROFIADAU BYWYD GO IAWN	12
BETH SYDD DAN SYLW YN Y PROSIECT HWN?	17
Y CYD-DESTUN POLISI	22
DULLIAU – BETH WNAETHON NI?	29
CANFYDDIADAU	30
DIWEDDGLO	62
ARGYMHELLION	64
ATODIAD 1 – GEIRFA	70
ATODIAD 2 – ENGHRAIFFT O LYTHYR A ANFONWYD AT YR HOLL FYRDDAU PARTNERIAETH RHANBARTHOL YM MIS AWST 2019	71
ATODIAD 3 – CRYNODEB O'R ARGYMHELLION	76

Nodyn ar gyd-destun cyhoeddi'r adroddiad hwn – Mehefin 2020

Roeddem wedi disgwyl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar 19 Mawrth 2020, ond wrth i ni baratoi ar gyfer ei lansio, datblygodd sefyllfa pandemig y Coronafeirws yn gyflym ar draws y byd, a dechreuodd nifer yr achosion yng Nghymru gynyddu'n sylweddol. Daeth yn eglur na fyddai cyhoeddi'r adroddiad hwn, a'r argymhellion sydd ynddo ar gyfer Llywodraeth Cymru a'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn briodol ar adeg o argyfwng cenedlaethol.

Wrth i'r genedl ddechrau mynd ati'n araf ac yn ofalus i gynllunio ar gyfer adferiad wedi'r pandemig, ymddengys yn bwysicach nag erioed ein bod ni'n sicrhau bod ein gwasanaethau'n cydweithio'n agos er mwyn ymateb i anghenion poblogaethau lleol. O ganlyniad, rydyn ni wedi edrych eto ar yr adroddiad hwn ac wedi penderfynu ei gyhoeddi ar yr adeg hon. Yr hyn y byddai pawb ohonom yn hoffi ei weld ar gyfer ein plant a'u teuluoedd yw llwybr syml, esmwyth, 'dim drws anghywir' at gefnogaeth. Mae hefyd yn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o gynnal ein gwasanaethau cyhoeddus. Serch hynny, rydym wedi gwneud rhai addasiadau i ambell un o'n hargymhellion gwreiddiol er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun presennol.

Rydyn ni'n ymwybodol, wrth i ni symud i gyfnod y tu hwnt i'r ymateb brys cyntaf i'r pandemig, y bydd tirlun iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol. Er bod hyn wrth gwrs yn golygu straen ar rai adnoddau, a phenderfyniadau cyllidebol anodd, rydyn ni'n gobeithio ei fod hefyd yn golygu bod gennym gyfle i fewnosod rhai o'r pethau a ddysgwyd o'r argyfwng hwn i'n gwasanaethau, ac y bydd gallu ailfeddwl am sut rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau cyhoeddus yn gyfle i sefydlu dull gweithredu 'dim drws anghywir' ledled Cymru ar gyfer iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Rhaid i iechyd meddwl a gofal cymdeithasol ein plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed fod yn flaenoriaeth glir wrth symud ymlaen. Mae angen sicrhau ymateb di-fwlch i'w hanghenion gofal.

Mae datblygiadau newydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig hon a hoffwn ei gweld yn parhau. Yn benodol, rydym yn falch i weld cefnogaeth dros y ffon uniongyrchol yn cael ei chyflwyno ar gyfer rhieni gan weithwyr CAMHS yn rhai lleoliadau byrddau iechyd. Rydym yn hefyd falch i weld cyflwyniad y [llinell gymorth CALL](#) - llinell cymorth 24-awr dros y ffon a neges testun. Mae'r mentrau yma yn dangos bod newid cyflym yn bosib a bod rhai o'r rhwystrau mae teuluoedd wedi wynebu yn y gorffennol cyn siarad â rhywun i dderbyn cysur neu gefnogaeth wedi bod yn ddiangen a hefyd wedi bod yn fwy costus o ran arian gyhoeddus.

Mae negeseuon ac argymhellion yr adroddiad hwn yn bwysicach nawr nag erioed, ac mae'r argyfwng presennol wedi bwrw goleuni ar rai o'r materion gwaelodol, er enghraifft diffyg darpariaeth breswyl addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Cynhaliwyd yr holl waith maes ar gyfer y prosiect hwn cyn gweithredu'r 'cyfyngiadau symud' y dechreuwyd eu rhoi ar waith ganol mis Mawrth 2020.

Iechyd Meddwl, Llesiant a Gofal yn ystod ac wedi'r argyfwng hwn

Ar adeg ysgrifennu, nid yw'n hawdd nodi sut yn union bydd yr argyfwng hwn wedi effeithio ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Yr hyn yr ydym ni yn ei wybod yw bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio mewn rhyw ffordd ar fywydau pob plentyn a pherson ifanc – bydd llawer wedi gweld newidiadau i'w gallu i fwynhau eu hawliau dynol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), er enghraifft yr hawl i ymlacio a chwarae (erthygl 31) a'r hawl i safon ddigonol o fyw sy'n diwallu eu hanghenion corfforol a chymdeithasol (erthygl 27). Rwy'n pryderu hefyd fod rhai plant o bosib wedi cael eu hamddifadu o'u hawl i dderbyn y gofal iechyd gorau posibl (erthygl 24); neu wedi cael llai o amddiffyniad rhag trais, cam-drin ac esgeuluso (erthygl 28) yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mis Mai 2020, fe ofynnon ni i fwy na 23,700 o blant a phobl ifanc yng Nghymru¹ rannu eu teimladau a'u meddyliau yn ystod y pandemig hwn. Un o'r prif ganfyddiadau oedd, er bod 83% o blant a phobl ifanc yn hyderus y gallen nhw gael help ar gyfer eu hiechyd emosiynol neu feddyliol gan ffrindiau neu deulu petai angen hynny arnyn nhw, mai 52-53% oedd yn hyderus y gallen nhw gael help o wefan neu ar y cyfryngau cymdeithasol, gan athrawon neu staff eraill yr ysgol, neu eu meddyg. Dywedodd 43% y bydden nhw'n teimlo'n hyderus yn cael help gan dîm iechyd meddwl yn eu hardal, a dywedodd 39% y bydden nhw'n teimlo'n hyderus yn cael help gan gwnsela ysgol. Rydyn ni eisiau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus y bydd *pwyllynnag* maen nhw'n troi atynt am help naill ai'n gallu eu cefnogi'n uniongyrchol, neu eu cyfeirio ymlaen i'r lle iawn i gael cefnogaeth.

Mae'n bosib bod y gefnogaeth a'r gofal sydd eu hangen ar blant wedi cael eu cyfyngu ar hyn o bryd, neu efallai nad oedd y llwybrau y mae plant a phobl ifanc a'u teuluoedd fel arfer yn eu defnyddio i gyrraedd y gefnogaeth honno ar gael, er enghraifft trwy ysgolion, neu trwy apwyntiadau arferol gyda meddyg teulu. Rydyn ni wedi codi'r pryderon hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd ar effaith Covid-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru². Wrth i ni ystyried sut olwg a theimlad fydd i'n cymdeithas yn ystod y misoedd a'r blyneddau nesaf, rhaid i ddiogelwch, gofal a chefnogaeth ein plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed fod yn y lle amlycaf yn ein cynlluniau.

Mae ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol wedi ymateb yn arwrol i'r argyfwng hwn, ond nid yw'r materion a amlygwyd gan yr adroddiad hwn wedi mynd i ffordd, ac mae'n rhaid i'n partneriaethau rhanbarthol gyflymu eu gwaith er mwyn sicrhau integreiddio gwell ar gyfer cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddi-fwlch i'n plant.

¹ Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/coronavirus-and-me-results/>

² Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Ymateb i Ymchwiliad: ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i effaith Covid-19, a'r rheolaeth arno, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://business.senedd.wales/mgConsultationDisplay.aspx?id=391&RPID=1520629561&cp=yes>

Rhagair gan Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru

Yn rhy aml, rwy'n clywed am sefyllfaoedd lle mae gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill (weithiau'n llythrennol) yn dadlau dros bennau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth; pan fyddan nhw'n methu cytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal. Mewn rhai achosion mae hyn wedi arwain at Weinidogion Llywodraeth Cymru yn cael eu galw i'r llys oherwydd methiant gwasanaethau i symud ymlaen, fel yr amlygwyd yn ddiweddar yn y cyfryngau³.



Mae pawb ohonom yn gyfrifol am ofal plant yng Nghymru. *Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru*
Fel y dywedodd un o gyfranogwyr y prosiect hwn, yn syml:
"dylen ni eisiau beth mae rhieni da eisiau i'w plant".

Fel rhan o'r prosiect yma, rwyf wedi ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru, sef y cyrff sy'n gyfrifol am ddod â gwasanaethau ynghyd ar lefel ranbarthol i ymateb i anghenion eu poblogaeth leol. Dywedodd dau o'r saith Bwrdd wrthyf fi mai'r drafodaeth yn sgîl fy ymweliad oedd y sgwrs hiraf mae'r Bwrdd erioed wedi'i gael ar faterion plant. Rwy'n falch o glywed bod y prosiect hwn wedi sbarduno'r Byrddau i siarad am blant a phobl ifanc, ond roeddwn i'n pryderu wrth glywed nad oedd y sgysiau hynny eisoes yn digwydd.

Roedd yr holl Fyrddau y buon ni'n buais i'n ymweld â nhw yn dryloyw am y ffaith mai gwasanaethau oedolion, yn arbennig gwasanaethau oedolion hŷn, oedd wedi bod yn ffocws iddyn nhw tan yn ddiweddar. Wrth gwrs, mae angen mawr ar y boblogaeth oedolion, ac yn arbennig y boblogaeth oedolion hŷn am wasanaethau integredig yn eu rhanbarth, ac nid bwriad yr adroddiad hwn yw gwneud i'r cenedlaethau gystadlu â'i gilydd. Ond fel Comisiynydd Plant, mae dyletswydd arnaf fi i amlygu anghenion plant a phobl ifanc. Nid yw hynny'n golygu bod pob bwrdd heb symud ymlaen i integreiddio gwasanaethau i blant a phobl ifanc hefyd, ond mae'n deg dweud bod adnoddau sylweddol fwy wedi cael eu canolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau oedolion.

Lluniwyd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i rannu ymarfer ac annog rhanbarthau i ystyried gwaith eraill. Fodd bynnag, er bod yr enghreifftiau hyn yn galonogol, byddai pob bwrdd yn dweud eu hunain nad ydynt eto yn y man lle yr hoffent fod. Ar ben hynny, mae'n bwysig dweud na fydd rhywbeth sy'n gweithio mewn un rhanbarth o reidrwydd yn gweithio mewn un arall – nid dweud wrth ranbarthau sut dylen nhw fod yn gwneud pethau yw'r diben, ond amlygu enghreifftiau o ymarfer yn y gobaith y gallant

³ BBC News (2020) Judge highlights secure bed shortage for young in Wales. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51332798>

ddysgu oddi wrth ei gilydd, er mwyn rhoi sicrwydd bod llawer o'r rhanbarthau yn wynebu'r un heriau, ac i annog byrddau i barhau â'r gwaith da maen nhw'n ei wneud.

Rwyf wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru, y GIG, comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol, a llawer o bobl eraill, ynghylch yr angen am beth rwy'n ei alw'n ddull 'dim drws anghywir' ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Mae dull 'dim drws anghywir' yn golygu, beth bynnag sydd wedi peri trallod i blentyn, na ddylen nhw gael clywed eu bod wedi dod i'r lle anghywir, na theimlo eu bod wedi curo ar y 'drws anghywir' wrth ofyn am help.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuentid Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl (GRHIC), a helpodd ni i benderfynu sut i ymdrin â'r prosiect hwn. Wrth drafod cysyniad 'dim drws anghywir', gofynnodd y grŵp i mi holi pob bwrdd: 'sut mae'r drws cywir yn edrych?', ac rwyf wedi gofalu mod i'n gofyn y cwestiwn hwnnw i bob bwrdd. Cafodd y rhan fwyaf ohonyn nhw drafferth i ateb y cwestiwn yma cystal ag y byddwn i wedi hoffi y tro cyntaf, ond roeddwn i'n falch bod y rhan fwyaf o ranbarthau eisiau symud tuag at ddull 'dim drws anghywir'. Nawr rwyf am wybod sut byddan nhw'n gwneud i hynny ddigwydd.

Rwyf wedi ceisio cadw at y cyngor a ges i gan y bobl ifanc o'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuentid Cenedlaethol – dywedodd un aelod o'r Grŵp wrthyf fi am "roi pwysau ar y byrddau a gwasgu mor galed ag oedd angen". Rwy'n teimlo mod i wedi gwneud hynny yn ôl y galw!

Hoffwn gofnodi diolch didwyll i Gadeiryddion, aelodau a staff cefnogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarth am eu cymorth i mi a'r fîm. Roedd pob rhanbarth yn groesawgar, yn barod eu cymwynas, ac yn rhoi'n hael o'u hamser. Hoffwn ddiolch hefyd i'r gweithwyr proffesiynol ar draws gwahanol sectorau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, a chynrychiolwyr o'r trydydd sector, a roddodd fewnwelediad ar gyfer y prosiect hwn.



Sally Holland

Negeseuon Allweddol

- Mae'r pandemig byd-eang wedi dangos yn amlwg dan gymaint o straen mae iechyd meddwl a gofal cymdeithasol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed. Rhagwelir y bydd ein gwasanaethau iechyd a gofal yn gweld cynnydd sylweddol yn yr angen yn ystod y misoedd nesaf, a bydd angen ymateb rhanbarthol, cydlynus er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth rydyn ni'n ei chynnig yn ddigonol i ymateb i'r galw hwn.
- Yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, mae plant a phobl ifanc sy'n profi trallod o ran iechyd meddwl, llesiant emosiynol a materion ymddygiad yn aros yn rhy hir i gael yr help angenrheidiol, ac maen nhw'n cael eu 'bownsio' rhwng gwasanaethau sy'n methu cytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal. Rydyn ni am weld gwasanaethau'n cofleidio plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, yn hytrach na'u bod yn gorfod cael hyd i ffordd trwy systemau cymhleth. Dylem ni ymateb ar sail angen, nid dim ond diagnosis.
- Mae angen i ranbarthau symud yn gyflym tuag at ddull 'dim drws anghywir' wrth ymateb i anghenion llesiant emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae hynny'n golygu na ddylen nhw gael clywed droeon eu bod yn curo ar y drws anghywir wrth geisio cael cymorth. Gallai hyn gynnwys modelau panel neu hwb i ddarparu cymorth cydlynus yn brydlon, canolfannau galw heibio, timau amlddisgyblaeth, modelau sy'n sicrhau bod angen i lai o blant a phobl ifanc fynd oddi cartref i gael gofal arbenigol, neu gynlluniau ar gyfer gofal preswyl arbenigol yn nes adref.
- Cawsom ein calonogi'n arbennig gan baneli cymorth cynnar SPACE-Wellbeing rhanbarth Gwent, sef yr enghraifft fwyaf datblygedig a welsom o ddull amserol, 'dim drws anghywir' o gefnogi teuluoedd lle mae'r plant yn profi anawsterau iechyd meddwl neu emosiynol neu anawsterau ymddygiad. Hefyd mae enghreifftiau eraill da mewn gwahanol rannau o Gymru lle mae rhanbarthau'n dechrau dod â gwasanaethau ynghyd i helpu plant sydd ag anghenion cymhleth. Mae angen i'r rhanbarthau wneud mwy i ddysgu oddi wrth ei gilydd lle mae enghreifftiau o arfer da yn bodoli, a bod yn fwy uchelgeisiol wrth symud at brofiad 'dim drws anghywir' ar draws eu rhanbarthau.
- Yn rhy aml, mae plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn dal i wynebu profiad cymhleth, straenus wrth iddyn nhw symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae arwyddion addawol mewn rhai rhanbarthau, ond nid ydym wedi gweld y newid 'ar lawr gwlad' y bydden ni'n hoffi, ac rydyn ni'n annog pob rhanbarth i edrych eto ar eu cynlluniau ar gyfer y grŵp bregus hwn.
- Mae'n ein calonogi bod gan bob rhanbarth bellach grwpiau amlasiantaeth penodol i ystyried anghenion plant a phobl ifanc, er bod rhai o'r rhain yn newydd iawn. Rydyn ni eisiau i ranbarthau i fynd cam ymhellach ac i wahodd plant a phobl ifanc i gymryd rôl actif ar Fwrdd y rhanbarth. Bydd sut i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith yn benderfyniad i Fyrddau unigol, ond sut

bynnag byddan nhw'n gwneud hynny, dylai gael ei lywio gan ymgysylltiad gweithredol â phlant a phobl ifanc yn eu rhanbarth.

- Bu newidiadau diweddar sydd i'w croesawu i bolisi Llywodraeth Cymru, megis neilltuo cyllid sylweddol yn benodol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, cryfhau'r ddyletswydd sydd ar ranbarthau i sicrhau cyfranogiad plant yn eu gwaith, a chyhoeddi diffiniad ehangach o blant ag anghenion cymhleth, fel y dylai ranbarthau fod yn trio cyflawni gwasanaethau integredig i bob plentyn sydd mewn trallod. Fodd bynnag, mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi ranbarthau i 'drawsffurfio' gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, er enghraifft trwy weithio gyda ranbarthau i rannu prosiectau dysgu a chymorth, a darparu cefnogaeth ariannol tymor hwy, y tu hwnt i arian 'sbarduno'.
- Mae angen i ranbarthau weithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd, a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt, i ailgreu sut mae gwasanaethau'n gweithio. Mae hynny'n cynnwys bod yn fwy hygyrch a thryloyw ynghylch y gwaith maen nhw'n ei wneud, o ran y ffordd rydyn nhw'n gweithio wyneb-yn-wyneb gyda phobl ifanc a'u teuluoedd, ac y ffordd rydyn nhw'n diweddarau eu cynnwys arlein ac yn sicrhau presenoldeb arlein hygyrch.
- Mae angen gweld cyllid ac adnoddau fel pethau sy'n perthyn i'r 'rhanbarth cyfan', yn hytrach na bod yn eiddo i awdurdodau lleol neu'r bwrdd iechyd lleol.
- Bydd y Comisiynydd, gyda phobl ifanc, yn cwrdd â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eto yn 2021-22 i asesu gwelliannau yn erbyn eu hargymhellion.

Beth yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol?

Cafodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) eu sefydlu yn 2016 gyda'r diben o ddod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector ynghyd i roi sylw i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol eu poblogaethau. Mae'r Byrddau'n cynnwys cynrychiolwyr megis aelodau etholedig awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd lleol, cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol lleol, cynrychiolwyr o'r trydydd sector, darparwyr gofal a sawl un arall.

Gwranddo ar bobl ifanc yw'r peth pwysicaf i'w gofio

Aelod GRhIC

Mae saith BPRh yng Nghymru, maen nhw'n rhannu olion traed y byrddau iechyd lleol yng Nghymru, ac yn cynnwys yr awdurdodau lleol sy'n rhan o ardal y bwrdd iechyd dan sylw. Mae saith BPRh, sef:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Mae'n gyfreithiol ofynnol bod y BPRhau yn rhoi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Ceir esboniad llawnach ar gyd-destun polisi BPRhau yn adran 'Y Cyd-destun Polisi' yn yr adroddiad hwn, ar [dudalen 22](#).

Cyflwyniad – Dim Drws Anghywir

Mae'r adroddiad hwn yn trafod sut mae plant a'u teuluoedd sy'n chwilio am gefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o anghenion yn aml yn canfod bod rhaid iddyn nhw gael hyd i ffordd trwy system gymhleth iawn, eu bod yn gallu syrthio trwy'r bylchau lle nad oes gwasanaethau i gyfateb i'w hanghenion, neu eu bod ar restr aros am amser hir, dim ond i glywed eu bod yn aros yn y ciw anghywir, neu eu bod wedi bod yn curo ar y drws anghywir ar hyd yr amser. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn credu y dylai gwasanaethau gofleidio teuluoedd, yn hytrach na'u bod yn gorfod ffitio i'r hyn sydd ar gael, ac y dylai cymorth gael ei ddarparu cyn gynted â phosib, i atal problemau mwy difrifol rhag datblygu.

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfle i wasanaethau ar draws rhanbarth gynllunio ar y cyd i sicrhau profiad llawer gwell i blant a'u teuluoedd pan fydd angen help ychwanegol arnyh nhw.



Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddau grŵp penodol o blant a phobl ifanc: y rhai sydd ag anghenion llesiant emosiynol neu iechyd meddwl cymhleth, y gall fod ganddynt anghenion arwyddocaol eraill hefyd; a'r pontio i wasanaethau oedolion ar gyfer pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu.

O ran llesiant emosiynol a iechyd meddwl, mae fîm Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd yn clywed yn rheolaidd gan blant a'u teuluoedd am sefyllfaoedd lle gwelir diffyg gwasanaethau integredig i blant ag anghenion cymhleth. Mae plant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw ar draws gwasanaethau yn dweud wrthyn ni'n rheolaidd bod plant yn cael eu 'bownsio o amgylch y system'; eu bod yn troi at weithwyr proffesiynol am gymorth, yn cael clywed bod rhaid iddyn nhw aros yn hir am gefnogaeth, ac wrth gael eu gweld, yn clywed nad dyna'r bobl iawn i'w helpu, ac yn cael eu hanfon rywle arall. Mewn achosion eithafol mae hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc yn cael eu 'cadw' rhwng dwy stôl o ran gwasanaethau, weithiau ar welyau mewn wardiau oedolion neu ar wardiau pediatrig lle gallen nhw achosi perygl iddynt eu hunain ac i blant eraill, dan wylidwriaeth barhaus llu o weithwyr proffesiynol er mwyn ceisio eu cadw'n ddiogel, neu mewn darpariaeth amhriodol nad yw'n addas i'w hanghenion ac sy'n golygu eu bod mewn perygl o ddioddef mwy o drawma.

Gall cael diagnosis ynghylch anhwylder penodol fod yn rhyddhad aruthrol i deuluoedd, ac yn aml gall olygu mynediad at y gofal a'r gefnogaeth angenrheidiol. Ond mae hefyd yn gallu cyfyngu ar y ddarpariaeth sydd ar gael i blentyn gan eu bod bellach 'o dan' iechyd, neu ofal cymdeithasol. Mae arnon ni angen dull gweithredu sy'n wir yn blentyn-ganolog, lle mae anghenion ac amgylchiadau'r plentyn dan sylw yn derbyn ymateb cyfannol, amlasiantaeth, di-fwlch, p'un a oes diagnosis ffurfiol neu beidio.

Mewn perthynas â phrofiadau pobl ifanc ag anableddau wrth iddyn nhw nesáu at bontio i'r gwasanaethau oedolion, dylanwadwyd ar y gwaith hwn gan y materion a amlygwyd gan adroddiad y Comisiynydd yn 2018, *Paid Dal yn ôl*⁴. Dywedodd pobl ifanc a'u teuluoedd wrthyn ni eu bod nhw ddim yn ymwneud yn ddigonol â'u gofal eu hunain, bod gwahanol drothwyon ar draws gwasanaethau, a bod gan bob gwasanaeth ffordd wahanol o reoli'r pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i gynnig dadansoddiad cynhwysfawr o waith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh o hyn allan), yn hytrach mae am amlygu ymarfer ledled Cymru a allai fod o gymorth i ranbarthau eraill, rhannu heriau a rhwystrau, a chyflwyno cyfres o argymhellion i wella'r integreiddio rhanbarthol ar wasanaethau, ac yn bwysicaf oll brofiadau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth. Nid yw'r enghreifftiau o ymarfer a roddir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu holl waith pob BPRh mewn perthynas â phlant ag anghenion cymhleth, ac yn yr un modd bydd rhai rhanbarthau yn gwneud gwaith tebyg i'r enghreifftiau o ymarfer a nodwyd mewn rhanbarthau eraill.

Ar hyd yr adroddiad hwn, byddwn ni'n cyfeirio at y termau anabledd dysgu, anhwylderau/gwasanaethau niwroddatblygiadol, ac 'ymddygiad heriol' / 'materion ymddygiad'. Ceir esboniad ar ein dealltwriaeth a'n defnydd o'r termau hyn mewn geirfa yn atodiad 1.

⁴ Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Paid Dal yn ôl – Pontio i Oedolaeth ar gyfer Pobl Ifanc ag Anableddau Dysgu*. Ar gael yn: <https://www.complancymru.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Peidiwch-â-dal-nôl.pdf>

Profiadau Bywyd Go iawn

Pan ofynnon ni i bobl ifanc beth dylai rhanbarthau fod yn ei wneud dros blant a phobl ifanc, un ymateb oedd "siarad am astudiaethau achos nid ystadegau". Dyma rai enghreifftiau diweddar o fywyd go iawn sydd wedi dod at sylw fîm Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd cyn y dyddiad cyhoeddi gwreiddiol ym mis Mawrth 2020:

- Plentyn sydd wedi profi trawma cymhleth a mynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys nifer o weithiau ar ôl ceisio cyflawni hunanladdiad. Oherwydd difrifoldeb y trais tuag at y rhieni, roedd yr heddlu'n cael eu galw allan i'r eiddo bron bob nos, ac yn aros am sawl awr bob tro. Roedd y plentyn yn derbyn cefnogaeth gan yr adran gofal cymdeithasol leol, ond dim cefnogaeth therapiwtig. Dywedwyd wrth y teulu fod y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS o hyn allan) yn methu helpu.
- Roedd teulu yn credu bod angen lleoliad diogel ar eu plentyn, gan fod y plentyn yn peryglu ei hun. Clywson ni fod gwasanaethau cymdeithasol yn ceisio cael hyd i leoliadau amgen, a'u bod wedi troi at ddwsinau o gyfleusterau preswyl, ond nad oedd lle i'r plentyn mewn un ohonynt. Y rhesymau roddwyd i ni oedd bod y plentyn ddim yn bodloni'r meini prawf. Arhosodd y plentyn mewn uned iechyd meddwl i gleifion mewnol, er bod y gweithwyr proffesiynol yn cytuno bod hynny ddim yn lleoliad priodol. Yna treuliodd y plentyn fisoedd ar ward pediatrig, oedd ddim yn lleoliad addas ar gyfer ei anghenion.
- Plentyn ag anabledd dysgu, nad oedd ei amgylchedd cartref yn ddiogel i'r plentyn aros ynddo bellach. Mae'r plentyn wedi cael ei leoli mewn sawl man gwahanol ledled Cymru wrth i wasanaethau ymdrechu i ddelio gydag ymddygiad y plentyn. Mewn un o'r lleoliadau hyn doedd dim ymyriadau therapiwtig ar gael, a chan fod y plentyn yn llawer ifancach nag eraill yn y lleoliad, bu'r plant hyn yn bwlio'r plentyn, ac yn achosi trawma pellach.
- Roedd plentyn â chyflwr oedd yn cyfyngu ar fywyd ac anghenion gofal iechyd cysylltiedig sylweddol wedi bod yn derbyn gofal iechyd mewn un awdurdod lleol, ac yna newidiodd i leoliad maeth yn ardal bwrdd iechyd arall. Roedd y ddau fwrdd iechyd dan sylw yn awr yn dadlau ynghylch pwy oedd â chyfrifoldeb am anghenion iechyd y person ifanc, oedd wedi cyrraedd 18 oed yn ystod y symud.
- Cafodd plentyn ei gadw mewn cyfleuster iechyd meddwl am wythnosau, er bod dim diagnosis iechyd meddwl, oherwydd bod dim darpariaeth arall ar gael.
- Roedd plentyn wedi ceisio cyflawni hunanladdiad dair gwaith mewn tair wythnos. Roedd y rhieni'n teimlo y bydden nhw'n methu cadw'r plentyn yn ddiogel gartre, ond bod neb yn gwrandao ar eu ceisiadau. Yn y pen draw, cafodd y plentyn ei ryddhau, heb gamau dilynol priodol.
- Plentyn sy'n arrdangos ymddygiad ac anhawsterau sy'n awgrymu ei bod nhw'n byw â dyslecsia a dyspracsia, sydd heb fod yn yr ysgol am fwy na phedwar mis oherwydd materion gorbryder cymdeithasol a chysylltiedig â'r ysgol. Cafodd y person ifanc atgyfeiriad i CAMHS, ond fe ddwedson nhw nad oedd yn bodloni'r meini prawf i gael cefnogaeth bellach. Dywedodd CAMHS y gallai fod gan y person ifanc dueddiadau Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD). Cwblhaodd ysgol y plentyn

atgyfeiriad i'r fîm niwroddatblygiadol. Yn y cyfamser mae'r ymddygiad gorbryder sy'n destun pryder wedi gwaethgu, fel bod y teulu'n poeni'n fawr iawn. Mae'r gwasanaeth addysg lleol wedi nodi darpariaeth EOTAS a fyddai'n helpu'r plentyn i astudio ar gyfer arholiadau ysgol, ond does dim modd rhoi hyn ar waith oni bai bod y plentyn yn derbyn cefnogaeth iechyd meddwl weithredol trwy CAMHS. Gofynnodd y teulu i'r Meddyg Teulu roi ail atgyfeiriad i CAMHS i'r person ifanc. Yn ddiweddar mae CAMHS gofal sylfaenol wedi gweld y plentyn ac wedi cynnig cefnogaeth therapiwtig i helpu gyda'r gorbryder. Dyw'r plentyn ddim yn yr ysgol o hyd.

- Roedd plentyn wedi cymryd gorddos ac yn sgîl hynny wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty. Ers i'r plentyn gael ei ryddhau o'r ysbyty, cawsom glywed nad oedd wedi cael unrhyw gefnogaeth, er i'r teulu gael ar ddeall y byddai'r plentyn yn gallu cyrchu cefnogaeth yn y gymuned. Galwodd y teulu ar y gwasanaeth CAMHS lleol a chael ar ddeall bod y plentyn ar y rhestr aros i gael apwyntiad gyda CAMHS ond eu bod yn methu rhoi dyddiad. Roedd y plentyn hefyd ar restr aros ar gyfer cynghorydd yn yr ysgol. Dywedodd yr adran gwasanaethau cymdeithasol wrth y teulu mai cyfrifoldeb CAMHS yw cefnogi'r plentyn, ac o ganlyniad, wnaethon nhw ddim cynnig unrhyw gefnogaeth.
- Roedd plentyn wedi cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac aeth yr heddlu â'r plentyn i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys. Nid oedd y plentyn wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol. Lleolwyd y plentyn ar ward oedolion yn yr ysbyty, dan oruchwyliaeth dau aelod o staff asiantaeth o'r uned iechyd meddwl lle roedd wedi bod yn flaenorol. Ni allai'r plentyn ddychwelyd i'r uned, gan nad oedd modd rheoli ymddygiad y person ifanc yno. Symudwyd y plentyn i ysbyty arall, eto ar ward oedolion, ond y tro yma ar wahân i weddi y ward. Trefnwyd cyfarfod amlasiantaeth i gytuno ar y camau nesaf. Roedd 16 o weithwyr proffesiynol yn bresennol yn y cyfarfod, gan gynnwys un o CAMHS lleol y plentyn, yr adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol ac un o'u cyfreithwyr. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gyfarwyddwr Clinigol CAMHS ym mwrdd iechyd y plentyn. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn honni eu bod yn methu darparu unrhyw fath ar lety diogel ar gyfer y plentyn, gan fod y person ifanc ar fin troi'n 17, ac nad oedd yn destun Gorchymyn Gofal.

Mae'r rhain yn enghreifftiau sy'n darlunio llawer mwy o achosion tebyg y clywson ni amdanynt. Pan gyflwynon ni rai o'r enghreifftiau hyn i'r BPRhau, dywedodd pob un ohonyn nhw wrthyn ni eu bod yn adnabod y math yma o sefyllfaoedd.

Yn ogystal ag anghytuno rhwng adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc hyn wedi dweud wrthyn ni hefyd am sefyllfaoedd disymud rhwng addysg a iechyd, er enghraifft pan fydd awdurdodau addysg lleol yn dweud mai problemau iechyd gwaelodol sy'n gyfrifol am anghenion dysgu person ifanc, ac felly mai'r adran iechyd ddylai dalu am y cyfan.

Yn achos y plant hynny sydd ag anghenion sy'n galw am ddarpariaeth breswyl ddiogel, mae llawer yn cael eu lleoli ymhell o'u teuluoedd a'u ffrindiau mewn mannau ledled Lloegr fel Stoke, swydd Northampton neu Birmingham, ac mewn un achos mor bell i ffwrdd â Glasgow yn yr Alban, gan nad oes lleoliadau addas ar eu cyfer yma yng Nghymru.



‘Rwy’n clywed am sefyllfaoedd
lle mae gweithwyr proffesiynol
iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill
(weithiau’n llythrennol) yn dadlau
dros bennau plant a phobl ifanc
sydd ag anghenion cymhleth’

Mewn ymateb i rai o'r materion hyn, mae'r Comisiynydd yn flaenorol wedi cyflwyno'r argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru.

Argymhellion Adroddiad Blynyddol 2017-18⁵

- Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc, a fydd yn adrodd i'r BPRh. Dylen nhw fynnu hefyd bod BPRhau yn cymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd meddwl plant i dimau aml-ddisgyblaeth, a fydd yn ymateb i anghenion eu poblogaethau lleol o blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth a thriniaeth emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn⁶ 'mewn egwyddor', ond nid oedd yn fodlon ymrwymo i fynnu bod BPRhau yn sefydlu'r strwythurau hyn ar y pryd.

- Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pendant tuag at gomisiynu darpariaeth newydd sy'n gallu diwallu anghenion gofal a iechyd meddwl y nifer bach o bobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad heriol iawn, nad oes fawr ddim darpariaeth breswyl addas ar gael ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, ond ni nododd unrhyw "gamau pendant" fel roedden ni wedi argymhell.

Argymhellion Adroddiad Blynyddol 2018-19⁷

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid newydd wedi'i neilltuo'n benodol at ddibenion darpariaeth iechyd meddwl a gofal cymdeithasol wedi'i chomisiynu ar y cyd ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn⁸ 'mewn egwyddor', gan ddweud bod gwaith yn digwydd i ddatblygu atebion ar gyfer trefniadau comisiynu ar y cyd, yn amodol ar oblygiadau ariannu.

- Dylai Llywodraeth Cymru weithredu hefyd i sicrhau bod yr unedau iechyd meddwl presennol ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i estyn yr ystod o bobl ifanc sy'n gallu derbyn gofal yno'n ddiogel.

⁵ Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/Adroddiad-Blynyddol-2017-18.pdf>

⁶ Llywodraeth Cymru (2018) *Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017-18*. Ar gael yn: https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-comisiynydd-plant-cymru-2017-2018-ymateb-llywodraeth-cymru?_ga=2.138572276.651365429.1582906760-1816203892.1574936687

⁷ Comisiynydd Plant Cymru (2019) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Adroddiad-Blynyddol-2018-19.pdf>

⁸ Llywodraeth Cymru (2019) *Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2018-19*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-comisiynydd-plant-cymru-2018-i-2019-ymateb-llywodraeth-cymru>

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddweud bod gwaith eisoes yn digwydd i estyn y ddarpariaeth hon lle mae meini prawf derbyn wedi cael eu tynhau yn flaenorol, a bod manylebau gwasanaeth newydd ar gyfer unedau cleifion mewnol yn destun ymgynghori.

- Dylai Llywodraeth Cymru weithredu i ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl ddiogel yng Nghymru ar gyfer y nifer bach iawn o blant sydd angen y gofal hwn.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, a dweud bod 'gwaith yn digwydd i ddeall natur a math y ddarpariaeth sy'n ofynnol a'r opsiynau cyflawni er mwyn ymateb orau i anghenion y bobl ifanc'.

Argymhelliad *Paid Dal yn ôl*

- The Welsh Government should ensure that Regional Partnership Boards are making substantial and effective progress on the integration of services for people with learning disabilities, children with complex needs and transition services as required by the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Part 9 Statutory Guidance (Partnership Arrangements).

The Welsh Government promised to consider the *Don't Hold Back* report in the work of the Ministerial Advisory Group which supports the delivery of the recommendations of the *Improving Lives* report.¹⁰

⁹ Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Paid Dal yn ôl – Pontio i Oedolaeth ar gyfer Pobl Ifanc ag Anableddau Dysgu*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Peidiwch-â-dal-nôl.pdf>

¹⁰ Welsh Government (2018) *Learning Disability Improving Lives Programme*. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/learning-disability-improving-lives-programme-june-2018.pdf>

Beth sydd dan sylw yn y prosiect hwn?

Dylai help ddod atoch chi; dydych chi ddim yn cadw dod atyn nhw

Aelod GRhIC

"Gofynnwch unwaith – ddylech chi byth gael eich troi i ffwrdd"

Aelod GRhIC

Ar adegau mae wedi bod yn gymhleth esbonio'r prosiect hwn wrth bobl, i raddau helaeth oherwydd nad yw pobl yn gyffredinol yn gwybod am waith BPRhau, ond hefyd oherwydd nad yw integreiddio gwasanaethau bob amser yn arwain at rywbeth sy'n uniongyrchol amlwg – er ein bod ni'n credu y gallai hynny ddigwydd, o wella tryloywder ac atebolrwydd.

Mewn ymgais i sicrhau eglurder ynghylch deilliannau ein prosiect, ym mis Gorffennaf 2019 gofynnnon ni i bobl ifanc o'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuentid Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl beth roedden nhw'n meddwl oedd yn bwysig i ni ganolbwyntio arno ar gyfer ein prosiect. Dyma rai o'r pethau ddwedson nhw wrthyn ni.



Gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuentid Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl - 7 Mawrth 2020 (Gyda diolch i T4CYP)

Beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni?

"Mae'n fater o gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac anghenion eraill hefyd"

"Gofalwch fod plant a phobl ifanc sydd angen hynny yn cael y driniaeth gywir cyn bod hi'n rhy hwyr"

"Dylech chi fedru mynd atyn nhw a byddan nhw'n eich helpu chi. Ddylech chi ddim cael eich anfon i ffwrdd i ddarganfod yr holl wasanaethau gwahanol eich hun"

"Sicrhau bod pobl fel athrawon, gweithwyr cymdeithasol ac arbenigwyr iechyd yn cydweithio'n well"

Sut byddech chi'n disgrifio'r prosiect mewn ychydig eiriau?

"Ddylai pobl ifanc ddim gorfod rhedeg milltir i gael help"

"Dadgymhlethu pethau"

"Sefyll gyda'n gilydd dros blant a phobl ifanc"

"Gwella bywydau i blant a phobl ifanc"

"Problemau cenedlaethol, atebion lleol"

"Cael hyd i'r gwasanaethau sy'n cydweddu â chi"

Beth ddylai'r BPRhau ei wneud i wasanaethu plant a phobl ifanc yn well?

"Uno er mwyn dadgymhlethu"

"Mae angen i'r fîm llesiant emosiynol a CAMHS roi'r gorau i daflu pobl allan oherwydd bod ganddyn nhw broblemau neu anghenion eraill"

"Cynnwys pobl ifanc yn eich cyfarfodydd gan ein bod ni am gynnig ein syniadau neu ein cefnogaeth"

Aelod GRhIC

"Mae angen iddyn nhw gael gwared o'r agwedd bod pobl yn 'rhy ddrwg' / 'rhy gymhleth' neu 'ddim yn ddigon drwg' "

"Mae angen iddyn nhw ystyried plant sydd ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion eraill fel awtistiaeth ac anableddau dysgu"

"Sicrhau bod gwasanaethau'n ymwneud ag ataliaeth – ymyrryd cyn iddi fynd yn argyfwng ar y plentyn"

"Dechrau helpu plant cyn i'r sefyllfa fynd yn rhy gymhleth a difrifol"

"Help a gwybodaeth i deuluoedd plant"

"Mwy o ddarpariaeth ar gyfer plant sydd angen mynd i'r ysbyty oherwydd materion iechyd meddwl"

"Lleoedd eraill i blant sydd angen mynd i'r ysbyty, oherwydd bod y sefyllfa nawr yn frawychus iawn, neu maen nhw'n methu cael yr help sydd ei angen arnyn nhw oherwydd eu bod nhw ddim yn ddigon hen"

"Cydnabod hawliau plant a phobl ifanc o dan CCUHP"

"Dylai pobl ifanc fod yn ganolog i'r holl wasanaethau cefnogi ac ni ddylai fod rhwystrau fydd yn atal pobl ifanc rhag derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw ac maen nhw'n ei haeddu"

"Gwrando ar bobl ifanc yw'r peth pwysicaf i'w gofio"

"Sicrhau bod person ifanc yn cynrychioli'r rhanbarthau a'r byrddau iechyd, yn ogystal â phobl 'ffansi'"

"Peidiwch ag osgoi'r pwnc. Siaradwch am beth sy'n digwydd ym meddyliau arddegwyr sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl"

"Siaradwch am astudiaethau achos, nid ystadegau"

"Mae angen i wasanaethau gyfathrebu â'i gilydd – dylai fod yn orfodol"

"Pwysig bod yn glir, yn dryloyw ac yn syml"

"Mae plant yn dioddef ac mae'n RHAID i bob unigolyn gael mynediad at gefnogaeth, beth bynnag yw eu hamgylchiadau (anableddau, teuluoedd sydd ddim yn gefnogol)"

Hawliau Dynol Plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Gofynnwn ni i'r bobl ifanc pa Hawliau Dynol sydd gan Blant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig oedd yn fwyaf perthnasol i'r prosiect hwn, ac fe ddwedson nhw:

- Erthyglau 1 a 2: mae gan bob plentyn yr un hawliau, a dylai pob plentyn fwynhau pob hawl drwy'r amser pw y bynnag ydyn nhw a ble bynnag maen nhw
- Erthygl 3: rhaid i oedolion weithredu er lles pennaf plant
- Erthygl 4: dylai'r llywodraeth helpu plant oherwydd bod rhaid iddyn nhw, nid dim ond oherwydd eu bod nhw eisiau gwneud hynny; ac oherwydd eu bod nhw eisiau gwneud hynny, nid dim ond oherwydd bod rhaid iddyn nhw
- Erthygl 9: dylai hawliau dynol plentyn gael eu parchu pan gaiff plentyn ei wahanu oddi wrth un rhiant neu'r ddau er mwyn cynnal perthynas bersonol a chyswllt uniongyrchol â'r ddau riant yn rheolaidd, oni bai bod hynny'n groes i les pennaf y plentyn
- Erthygl 12: mae gan blentyn sy'n gallu ffurfio'i f/barn ei hun hawl i fynegi'r farn honno'n rhydd ar bob mater sy'n effeithio arno/arni, a bod pwysau priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn ôl oed ac aeddfedrwydd y plentyn
- Erthygl 13: mae gan blant hawl i gyrchu a rhannu gwybodaeth
- Erthygl 16: yr hawl i breifatrwydd
- Erthygl 19: amddiffyniad rhag cael eu hanafu, eu trin yn wael neu eu hesgeuluso
- Erthygl 20: rhaid i blentyn a amddifadir o amgylchedd ei d/theulu dros dro neu'n barhaol, neu na ellir caniatáu iddo/iddi aros yn yr amgylchedd hwnnw er ei (l)les pennaf, fod â hawl i dderbyn amddiffyniad a chymorth arbennig gan y Wladwriaeth
- Erthygl 23: mae gan blentyn hawl i ofal a chefnogaeth arbennig os oes ganddo/ganddi anabledd neu broblem iechyd meddwl
- Erthygl 24: mae gan blentyn hawl i'r lefel orau bosibl o ofal iechyd a chyfleusterau ar gyfer trin salwch
- Erthygl 25: mae gan blentyn hawl i adolygiadau gofal rheolaidd os yw'r plentyn wedi'i leoli mewn cyfleuster at ddibenion gofal, amddiffyniad neu driniaeth



Mapio gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol - 7 Mawrth 2020 (Gyda diolch i T4CYP)

- Erthygl 27: mae gan blentyn hawl i safon ddigonol o fyw ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol
- Erthygl 37: mae gan blentyn hawl i beidio â chael ei amddifadu o ryddid yn anghyfreithlon neu ar hap, ac os caiff plentyn ei amddifadu o'i ryddid yn gyfreithlon, dylid ei drin yn ddyngharol, gan barchu ei urddas
- Erthygl 39: mae gan blentyn hawl i adferiad corfforol a seicolegol ac ailintegreiddio cymdeithasol os yw esgeuluso, ecsbloetio, camdriniaeth, triniaeth neu gosb anynnol neu israddiol wedi effeithio arno/arni
- Erthygl 42: rhaid i'r llywodraeth hysbysu plant am eu hawliau


Ymwelon ni â Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid Cenedlaethol eto ym Mis Mawrth 2020, cyn cyhoeddi ein hadroddiad, i esbonio ein canfyddiadau iddyn nhw, ac i roi'r cyfle iddyn nhw i ddylanwadu ar yr adroddiad yn bellach. Roedd eu cyfraniad yn y sesiwn honno hefyd o gymorth mawr, a'u neges allweddol oedd bod angen i FPRhau wrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys yn weithredol os ydynt i weithio dros blant a phobl ifanc.

Dyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP

Gwaetha'r modd, rydyn ni'n gwybod am achosion lle nad yw'r hawliau dynol uchod wedi cael eu profi gan blant a phobl ifanc oherwydd nad yw gwasanaethau'n ddigon cydlynus i'w cynnal.

Gan fod BPRhau yn benodol gyfrifol am y cynlluniau sy'n rhoi'r ymateb i'r Asesiad o Anghenion o Boblogaeth ar waith, sef un o ofynion Adran 14 o'r Ddeddf (paragraff 16 o ganllawiau statudol Rhan 9), BPRhau a'r aelodau sy'n asiantaethau ohonynt sy'n ymarfer swyddogaethau'r Ddeddf. Daethon ni i'r casgliad felly bod rhaid i FPRhau roi sylw dyledus i CCUHP (o dan ddyletswydd adran 164 i gydweithio a darparu gwybodaeth wrth ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol).

Rydyn ni'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y ddyletswydd hon yn eu canllawiau statudol Rhan 9 a ddiwygiwyd yn ddiweddar, a rydyn ni'n disgwyl i bob BPRh archwilio sut gallan nhw ymateb yn weithredol i'r ddyletswydd hon trwy eu cyfrifoldeb i blant ag anghenion cymhleth.



Beth yw'r Drws Cywir?

Y Cyd-destun Polisi

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Daeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fodolaeth trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹¹, o dan drefniadau partneriaeth Rhan 9 o'r Ddeddf honno. Dechreuon nhw ar eu gwaith yn 2016.

Mae saith BPRh yng Nghymru.

Tra bod pob BPRh yn rhannu ôl troed y Bwrdd Iechyd Lleol, mae amrywiaeth ymhlith y BPRhau o ran nifer yr awdurdodau lleol, a'r partneriaethau strategol eraill (fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) sy'n cael eu cynnwys o fewn eu ffiniau.

Mae cyfansoddiad cyfredol cyrff partneriaeth o dan bob BPRh fel a ganlyn:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chyngor Sir Mynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Môn, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Dinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys – Bwrdd Addysgu Iechyd Powys a Chyngor Sir Powys.

Mae'n bwysig nodi yma nad yw BPRh Cwm Taf Morgannwg, sy'n cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont, wedi bodoli ond ers mis Ebrill 2019. Cyn hynny, roedd Pen-y-bont yn dod o dan ranbarth blaenorol Bae'r Gorllewin, sef Gorllewin Morgannwg bellach.

¹¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents>

Beth mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei wneud?

Y diben mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatgan wrth ofyn bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw:

*rheoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, a sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chefnogaeth effeithiol yn eu lle er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth dan sylw yn y ffordd orau.*¹²

Mae gofyn bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn blaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- *Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia*
- *Pobl ag anableddau dysgu*
- *Plant ag anghenion cymhleth*
- *Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc*
- *Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd*

Mewn perthynas yn benodol â phlant ag anghenion cymhleth mae'r canllawiau statudol Rhan 9 (a ddiwygiwyd yn ddiweddar)¹³ yn nodi y dylai fod ffocws ar wasanaethau ataliol ar gyfer plant a theuluoedd, a hefyd ar wasanaethau gofal a chymorth ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd angen hynny. Yn gyntaf, integreiddio gwasanaethau, gofal a chymorth er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, gan gynnwys hybu iechyd emosiynol a llesiant da. Y nod yw darparu cymorth i deuluoedd er mwyn atal y plentyn rhag gorfod derbyn gofal, neu fynd i gystodaeth. Yn ail, dylai fod dull integredig o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth sydd eu hangen, gan gynnwys trefniadau pontio o wasanaethau plant i rai oedolion.

Mae pwysigrwydd rôl BPRhau i ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael ei gydnabod gan gynllun 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a iechyd: *Cymru Iachach*¹⁴. Yn y cynllun hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn dymuno cyflawni 'iechyd a gofal cymdeithasol lleol di-fwlch' erbyn 2028:

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr trydydd sector ynghyd, yn llenwi rôl drosolwg a chydlynu gadarn. Bydd gwaith rhanbarthol mewn partneriaeth yn ganolog i sut byddwn ni'n datblygu modelau gwerth uchel o

¹² Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/rhan-9-canllawiau-statudol-trefniadau-partneriaeth.pdf>

¹³ Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/rhan-9-canllawiau-statudol-trefniadau-partneriaeth.pdf>

¹⁴ Llywodraeth Cymru (2018) *Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol?_ga=2.135771121.1594850195.1582547077-1816203892.1574936687

iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a gaiff eu hyrwyddo i'w mabwysiadu'n ehangach ledled Cymru.

Mae pwysigrwydd Partneriaethau Rhanbarthol i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth hefyd wedi cael ei gydnabod gan y rhaglen wella sydd newydd ei diweddaru ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc, Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2), sydd wedi neilltuo un o'i thri llif gwaith ar gyfer gweithio gyda BPRhau er mwyn mabwysiadu 'fframwaith cymorth cynnar a chefnogaeth well'¹⁵.

Cyllid sydd ar gael i FPRhau

Dwy o'r ffynonellau cyllid mwyaf sydd wedi bod ar gael i FPRhau er mwyn datblygu dyheadau Cymru Iachach Llywodraeth Cymru yw'r Gronfa Trawsffurfio a'r Gronfa Gofal Integredig (ICF).

Lansiwyd y Gronfa Trawsffurfio yn 2018 a darparodd hyd at £100 miliwn o gyllid dros gyfnod o 2 flynedd ariannol (2018-19 a 2019-20) y gallai BPRhau wneud cais amdano. Lluniwyd y Gronfa i annog arloesedd, sydd yn ei dro yn arwain at drawsffurfio gwasanaethau oddi mewn i ranbarthau:

Yn arbennig lluniwyd y Gronfa i ddilysu'n gyflym pa mor 'raddoladwy' yw modelau newydd (eu gallu i ehangu o ardal leol i ranbarth, neu o ranbarth i ranbarthau eraill) a phrofi a ydyn nhw'n 'drawsffurfiannol' (yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, yn newid neu'n disodli dulliau presennol yn hytrach nag ychwanegu haen arall atynt).¹⁶

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd yn gynharach yn 2020 y byddai'r Gronfa'n dod i ben yn 2021, gydag £11 miliwn yn weddill i FPRhau gynnig amdano yn ystod 2020-21.¹⁷ Fodd bynnag, ers hynny cyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2020 na fydd yr £11 miliwn ar gael bellach, gan fod y cyllid hwn wedi'i ddargyfeirio 'er mwyn cefnogi'n uniongyrchol gamau gweithredu mewn ymateb i bandemig COVID-19'¹⁸.

Lansiwyd y Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn 2014-15. Er ei bod yn y lle cyntaf yn canolbwyntio ar gefnogi pobl hŷn, yn arbennig o amgylch osgoi derbyniadau diangen neu amhriodol i'r ysbyty neu ofal preswyl, yn 2016-17, ychwanegwyd 'plant ac oedolion ag anghenion cymhleth', 'plant ac oedolion ag anableddau dysgu' a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig oddi mewn i gwmpas y gronfa¹⁹. Yn 2018-19²⁰ ac eto yn

¹⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) *Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dyddiedig 9 Rhagfyr*. Ar gael yn: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s96729/Llythyr%20gan%20y%20Gweinidog%20Iechyd%20a%20Gwasanaethau%20Cymdeithasol%20%20Rhaglen%20Law%20yn%20Llaw%20at%20Blant%20a%20Phobl%20I.pdf>

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2019) *Cronfa Trawsffurfio Llywodraeth Cymru 2018-20 – Canllawiau*. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cronfa-trawsnewid-2018-2021-canllawiau_0.pdf

¹⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2020) *Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21*. Ar gael: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12993/cr-ld12993%20%20-w.pdf>

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2020) *Cyllideb Atodol 2020-21 – Nodyn esboniadol*, ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-05/1st-supplementary-budget-2020-2021-note.pdf>

¹⁹ Swyddfa Archwilio Cymru (2019) *Cronfa Gofal Integredig*. Ar gael yn: <https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/y-gronfa-gofal-integredig-adroddiad-cym.pdf>

²⁰ Swyddfa Archwilio Cymru (2019) *Cronfa Gofal Integredig*. Ar gael yn: <https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/y-gronfa-gofal-integredig-adroddiad-cym.pdf>

2019-20²¹, darparwyd £15 miliwn ychwanegol trwy'r ICF ar gyfer plant sydd mewn perygl o fod yn derbyn gofal, mewn gofal, neu wedi'u mabwysiadu.

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael (2018-19), dim ond 8.6% (£4,823,854) o'r union wariant o ddyraniadau ICF a wariwyd ar blant ag anghenion cymhleth; gydag 8.1% (£4,535,977), 5.4% (£3m) a 2% (£1,141,652) yn cael ei wario ar anableddau dysgu plant ac oedolion, y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig, a gofalwyr (pob oed, gan gynnwys gofalwyr ifanc) yn eu tro. Mae hyn yn cymharu â 57.8% (£32,329,527) ar gyfer pobl hyn a bregus. O ganlyniad, roeddem yn croesawu'r arian ychwanegol yn nyranid 2019-20.

Roedd y cyfleoedd ariannu eraill ar gyfer 2019-20 yn cynnwys y Cyllid o £7.2 miliwn ar gyfer y Blynnyddoedd Cynnar ac Ataliaeth, sydd er mwyn 'atal afiechyd', a gafodd ei ddarparu i 'wella arweinyddiaeth systemau a chaniatáu ar gyfer uwchraddio cynlluniau ataliaeth cyffredinol'.

Beth rydyn ni'n ei olygu wrth ddweud 'plant ag anghenion cymhleth'?

Tan fis Chwefror 2020, ni chynigiodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r canllawiau statudol Rhan 9 sy'n cyd-fynd â hi ddiffiniad o'r hyn a olygir wrth ddweud 'plant ag anghenion cymhleth'. Y diffiniad a gynigir gan y canllawiau diwygiedig yw:

- *Plant ag anableddau a/neu salwch*
- *Plant sydd â phrofiad o ofal*
- *Plant sydd ag angen gofal a chymorth*
- *Plant sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal*
- *Plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol*

Mae hyn yn cynnwys cefnogi trefniadau pontio effeithiol, integredig o wasanaethau plant i oedolion.

Rydyn ni'n pryderu bod y diffyg blaenorol o ran diffiniad ffurfiol wedi arwain at sawl Bwrdd yn gweithredu gan ddefnyddio diffiniad cymharol gyfyng o blant ag anghenion cymhleth. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys plant â diagnosis iechyd meddwl neu anableddau cymhleth a lluosog. Rydyn ni'n credu bod diffiniad mor gul mewn perygl o eithrio rhai o'r plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed. Fe fuon ni'n ymweld â rhai byrddau lle roedd y Cadeirydd yn dal i ofyn y cwestiwn "beth mae anghenion cymhleth yn ei olygu?" Mae angen i ni symud y tu hwnt i ofyn y cwestiwn hwn a dechrau cael hyd i atebion ar gyfer plant sydd mewn trallod ac angen help a chefnogaeth, yn unol â'u hawl ddynol.

Mae Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y ddealltwriaeth ganlynol o anghenion cymhleth yn eu canllawiau²²:

²¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2020) *Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21*. Ar gael yn: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12993/cr-ld12993%20%20-w.pdf>

²² Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru (2018) *Canllawiau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – Integreiddio Comisiynu Gwasanaethau ar gyfer Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth*. Ar gael yn: <https://www.wlga.cymru/guidance-for-regional-partnership-boards-integrated-commissioning-of-services-for-families-children-and-young-people-with-complex-needs>

Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu ystod eang o anghenion cymhleth, a rhestrir eu teipoleg isod:

- *Cymhleth oherwydd cyflyrau iechyd cronig (gan gynnwys amodau sy'n cyfyngu ar fywyd)*
- *Cymhleth oherwydd namau synhwyrdd (e.e. dall, byddar)*
- *Cymhleth oherwydd anabledd corfforol a chyflyrau cysylltiedig megis anabledd dysgu a/neu awtistiaeth*
- *Cymhleth oherwydd arddangos ymddygiad peryglus, heriol, a/neu niweidiol*
- *Cymhleth oherwydd salwch meddwl*
- *Cymhleth oherwydd anabledd dysgu a/neu awtistiaeth*
- *Cymhleth oherwydd cyd-destun (e.e. camdriniaeth, esgeuluso, tyfu i fyny gyda thrais domestig, tyfu i fyny'n ffoadur/geisiwr lloches). Bydd amgylchiadau rhai pobl ifanc yn troi'n gymhleth oherwydd eu bod, yn ogystal â'u hanghenion gwreiddiol, wedi ymwneud â'r system cyfiawnder ieuencid.*

Dylid nodi y bydd anghenion rhai plant yn croesi mwy nag un teipoleg. Dylid nodi hefyd na fydd pob plentyn sydd ag un teipoleg yn gymhleth. Er enghraifft, gall plentyn sydd ag awtistiaeth fod ag anghenion cymhleth neu beidio, mae'n dibynnu ar sut mae'r awtistiaeth yn effeithio arnyn nhw a/neu gyd-fodolaeth cymhlethdodau eraill megis cyflyrau iechyd. Mewn achosion llai cymhleth lle mae angen gofal a chymorth ar y plentyn neu'r person ifanc, dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau llwybrau atgyfeirio effeithiol i ddiwallu anghenion (e.e. llwybrau effeithiol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl nodi nam synhwyrdd). Bydd hynny'n atal anghenion rhag esgaladu a mynd yn fwy cymhleth.

Yn bwysig, mae'r canllawiau yn mynd ymlaen i ddweud...

Er ein bod wedi disgrifio gwahanol fathau o deipoleg uchod, dylai'r term 'cymhleth' gyfeirio'n fwy at y gwasanaeth cymhleth y mae angen ei ddarparu, yn hytrach na bod yn fodd i labelu plant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, mae rhai byrddau unigol wedi cynnal ymarferion unigol i ganfod eu diffiniad hwythau o blant ag anghenion cymhleth. Er enghraifft, mae un bwrdd wedi bodloni ar ddiffiniad tri-phwynt:

- *Plant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma cymhleth (yn aml ardegwyr heriol sydd ag anawsterau ymlyniad cymhleth).*
- *Plant a phobl ifanc sydd ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig/anabledd dysgu ac ymddygiad heriol.*
- *Plant a phobl ifanc sydd ag anableddau corfforol ac anghenion iechyd cymhleth.*

Nid ydym yn ffafrio un o'r diffiniadau hyn dros y llall, ond rydyn ni'n bendant yn credu y dylai'r diffiniad fod mor eang â phosib, i gynnwys pob plentyn sy'n profi trallod ac sydd angen help a chefnogaeth gan asiantaethau lluosog. Fel y byddwn ni'n trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae angen amlwg am iaith a rennir rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac asiantaethau eraill, a rhwng rhanbarthau, ynghylch ystyr anghenion cymhleth a sut rydyn ni'n ymateb i'r anghenion hynny. Mae'n rhaid i hynny gynnwys y plant a'r bobl ifanc sy'n syrthio trwy'r bylchau yn ein gwasanaethau, fel mae'r astudiaethau achos a welwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn dangos.

Rydyn ni felly'n croesawu'r ffaith bod y canllawiau statudol Rhan 9 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys diffiniad o blant ag anghenion cymhleth. Rydyn ni'n credu bod y diffiniad hwn yn ddigon eang ac yn gallu cael ei fabwysiadu gan yr holl fyrdau i greu iaith a rennir rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a phob gwasanaeth arall perthnasol. Bydden ni'n annog pob BPRh i ystyried y diffiniad mwy penodol a gynigiwyd gan Fwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru wrth eu tywys i roi sylw i anghenion y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu cwrddu gan y diffiniad eang yn y canllawiau statudol newydd Rhan 9.

Gweithredu diweddar gan Llywodraeth Cymru ac eraill

Rydyn ni'n falch bod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi gweithredu i wella'r canllawiau polisi ac ariannu ar gyfer BPRhau, mewn perthynas ag anghenion plant ag anghenion cymhleth, fel yr amlinellwyd uchod.

Yn 2018-19, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y *Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth* ac yn eu diwygio²³. Roedd y diwygiadau hyn yn cynnwys sicrhau bod cynrychiolwyr addysg a thai yn eistedd ar y byrdau. Nid oedd yn gofyn bod y BPRhau yn crynhoi cyllid i sicrhau darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, fodd bynnag, er bod y Comisiynydd wedi galw am hynny.

Cynhyrchodd Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru ganllawiau ar ddiwedd 2018 dan y teitl 'Integreiddio Comisiynu Gwasanaethau i Deuluoedd, Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth', a luniwyd i gynorthwyo BPRhau i gomisiynu gwasanaethau integredig yn llwyddiannus. Ers hynny mae'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phob un ond un o'r BPRhau mewn gweithdai undydd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r canllawiau ac annog arloesedd a thrawsfurfiant.

Mewn ymateb i alwadau'r Comisiynydd, ym mis Chwefror 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu canllawiau statudol Rhan 9 diwygiedig, oedd yn diweddarau sawl elfen o'r canllawiau ynghylch plant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Diffiniad o blant ag anghenion cymhleth sy'n ehangach na dehongliad presennol rhai BPRhau, ac sy'n gallu darparu fframwaith ar gyfer iaith a rennir i weithwyr proffesiynol;
- Cydnabod dyletswydd BPRhau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r disgwyl iddynt ddilyn egwyddorion CCUHP;
- Geiriad mwy penodol yn annog ffocws ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar ar gyfer anghenion cymhleth (gan gynnwys iechyd meddwl);
- Geiriad manwl ynghylch estyn dyletswydd adran 12 yr awdurdod lleol²⁴ (cyfranogiad plant a phobl ifanc) i FPRhau;
- Disgwyl y dylai BPRhau sefydlu is-grwpiau amlasiantaeth i drafod anghenion plant a phobl ifanc;
- Gofyniad bod cynrychiolwyr addysg a thai yn aelodau o FPRhau;

²³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) *Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth* (Amrywiol Newidiadau)(Cymru) 2019 – Rhif 760 (W.143). Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/760/made>

²⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Mesur Plant a Theuluoedd* (Cymru) 2010. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/section/12>

- Disgwyl i FPRhau ystyried datblygu strategaethau comisiynu rhanbarthol a threfniadau crynhoi cronfeydd ar gyfer gofal preswyl i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Ddechrau 2020, mewn ymateb i bwysau gan y Comisiynydd Plant a'i thîm, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth nad oes modd ymateb i'w hanghenion dim ond yn y system bresennol o les diogel (gofal cymdeithasol) neu ddarpariaeth cleifion mewnol neu iechyd meddwl ddiogel. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn i gyflwyno ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020, ac rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn arwain at weithredu cyflym i sefydlu darpariaeth breswyl sy'n diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn. Mewn llythyr dyddiedig 18fed Mehefin 2020, cadarnhaodd y Dirprwy Gweinidog bod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cwblhau gyda chasgliadau allweddol bydd yn sail i gyfnod nesa'r gwaith. Bydd y Comisiynydd yn cwrdd â Llywodraeth Cymru a'r BPRhau yn gynnar ym mis Gorffennaf i drafod canfyddiadau'r Grŵp a'r ffordd ymlaen arfaethedig.

Dulliau – Beth wnaethon ni?

"Siaradwch am astudiaethau achos, nid ystadegau

Aelod GRhIC

Cyn ysgrifennu'n ffurfiol at bob BPRh yng Nghymru, ym mis Ebrill 2019 ysgrifennodd y Comisiynydd at Gadeiryddion yr holl Fyrddau i roi gwybod iddynt ein bod am ymweld â'u rhanbarth i drafod eu gwaith ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Yna ysgrifennodd y Comisiynydd at bob Bwrdd yng Nghymru ym mis Awst 2019, yn gofyn am gyfarfod gyda'r Bwrdd. Ceir enghraifft o un o'r llythyrau yn Atodiad 2.

Yn ystod hydref a gaeaf 2019/20, bu'r Comisiynydd a'i thîm yn ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru. Roedd y Comisiynydd yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn pob un o'r Byrddau ond un, a bu'n mynychu sesiwn o Fwrdd Trawsffurfio Plant a Phobl Ifanc y BPRh olaf hwnnw. Yn y cyfarfodydd hyn, heriodd hi'r Byrddau ynghylch y pedwar maes a amlinellwyd yn ei llythyr.

Ysgrifennodd y Comisiynydd hefyd, yn hydref 2019, at sawl corff trydydd sector a rhanddeiliaid eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, i ofyn am eu barn ynghylch anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn, y gwasanaethau sydd ar gael iddynt eisoes ledled Cymru, pa mor effeithiol mae'r rheiny'n gweithio dros blant a phobl ifanc, ac effeithiolrwydd BPRhau wrth integreiddio gwasanaethau iddyn nhw.

Yna cynhaliodd fîm y Comisiynydd ddadansoddiad thematig o'r materion allweddol oedd yn dod i'r amlwg o'r data a gasglwyd cyn llunio'r adroddiad hwn. Llywiwyd y gwaith gan y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuentid Cenedlaethol ar lechyd Meddwl a phaneli ymgynghorol ieuentid ac oedolion y Comisiynydd.

Canfyddiadau

Rhan 1: Beth mae BPRhau yn ei wneud i sicrhau eu bod yn rhoi sylw i anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ar draws eu rhanbarth?

Is-grwpiau amlasiantaeth penodol i ystyried anghenion plant a phobl ifanc

Mae pob un o'r Byrddau wedi bod yn onest gyda ni trwy ddweud na fu plant a phobl ifanc yn rhan fawr o gynlluniau gwaith y mwyafrif ohynynt tan yn ddiweddar. Cododd nifer o FPRhau y ffaith bod y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc blaenorol wedi'u colli²⁵, a dweud bod hynny wedi arwain at fwllch yn y ffocws ar blant a phobl ifanc. Dywedodd sawl rhanddeiliad o gyrff trydydd sector wrthyn ni fod hyn, a'r ffocws ar y boblogaeth oedolion hŷn, wedi golygu mai ychydig iawn o gynrychiolaeth a fu, os o gwbl, ar y byrddau eu hunain o blith pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, heb sôn am rai sy'n gweithio'n benodol gyda phlant ag anghenion cymhleth.

Roedd rhan gyntaf argymhelliad y Comisiynydd yn Adroddiad Blyneddol 2017-18 yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc, a fydd yn adrodd i'r BPRh.

Rydyn ni'n falch o ddweud bod Llywodraeth Cymru bellach wedi gwrandao ar ein galwadau ynghylch hyn, a bod y canllawiau Rhan 9 newydd yn cynnwys disgwyl i FPRhau sefydlu is-grwpiau amlasiantaeth i drafod anghenion plant a phobl ifanc. Rydyn ni'n falch o adrodd bod gan bob BPRh bellach strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, maen nhw'n bendant ar gyfnodau datblygiad gwahanol iawn. Mewn un rhanbarth, bu grŵp penodol yn ei le ers mis Gorffennaf 2013, cyn i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i rym. Yn achos y lleill, roedd y sefyllfa'n amrywio o fod wedi sefydlu grŵp penodol ers rhai blyneddodedd, i fod newydd gychwyn arni. Mewn un rhanbarth, dim ond unwaith roedd y grŵp plant newydd wedi cwrdd pan aethon ni ar ymweliad, ddiwedd 2019, ac nid oedd eto wedi adrodd i'r BPRh. Lle roedd is-grwpiau sefydledig gallan ni weld sut mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth i allu'r bwrdd i ganolbwyntio ar faterion plant a phobl ifanc. Nid oes llawer o gynnydd i adrodd amdano yn achos rhai o'r is-grwpiau newydd.

²⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth*. Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/10502/1/q262a360_english1.pdf%3Flang%3Den

Er ein bod yn croesawu'r is-grwpiau penodol, mae rhai aelodau o fyrddau wedi mynegi pryderon bod y Byrddau'n gallu troi'n ddim mwy na 'stamp rwber' os yw'r holl 'waith go iawn' yn cael ei ddirprwyo i is-grwpiau. Mae'n bwysig bod gan y Bwrdd ei hun bersectif eang ar ei holl feysydd gwaith. Roedd pryderon hefyd y gallai'r agenda plant a phobl ifanc dyfu mor fawr nes 'troi'n docynistaidd'. Dywedodd y BPRh a gododd hyn wrthyn ni eu bod wedi mynd ati i gyflawni nifer o bethau llai yn rhanbarthol, gyda golwg ar

Astudiaeth Achos: BPRh Powys

Mae gan FPRh Powys is-grŵp o'r enw 'Partneriaeth Dechrau Da', sy'n canolbwyntio ar faterion plant. O dan yr is-grŵp hwn mae 5 llif gwaith allweddol: datblygu canolbwynt cymorth cynnar amlasiantaeth; iechyd a llesiant emosiynol a chymorth ieuenctid integredig; lleoli a mabwysiadu; datblygu gwydnwch; a ffyrdd egniol a iach o fyw. Mae gan bob llif gwaith ei gynllun gweithredu ei hun ar gyfer olrhain cynnydd. Hefyd mae grŵp trawsbynciol ar gyfer materion fel diogelu, eiriolaeth a'r iaith Gymraeg. Mae'r grwpiau llif gwaith hyn yn cyfarfod bob 8 wythnos ac yn bwydo i'r bartneriaeth Dechrau Da sy'n cwrdd bob mis; mae hynny yn ei dro yn bwydo holl gyfarfodydd eraill y BPRh. Mae'r gwaith a ddatblygwyd trwy'r bartneriaeth Dechrau Da yn cynnwys cyfarfodydd Partneriaeth Nodi Cynnar Powys mewn ysgolion, a gynhelir bob tymor yn holl ysgolion uwchradd y rhanbarth.

wneud y gwahaniaeth mwyaf. Un enghraifft o hyn fyddai bod y rhanbarth hwnnw wedi creu dwy rôl newydd i wreiddio gweithwyr proffesiynol o dîm un gwasanaeth mewn un arall er mwyn sicrhau ymateb a lywiwyd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd.

Ariannu gwaith integredig ar gyfer plant a phobl ifanc a'i gymell

Ffocws newydd ar blant a phobl ifanc?

Mae sawl un o'r Byrddau wedi cyflwyno cynigion ariannu i'r Gronfa Trawsffurfio a'r ICF mewn perthynas ag integreiddio gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth. Mae'n ymddangos yn glir i ni nad oes digon o dystiolaeth bod BPRhau yn defnyddio'r Gronfa Trawsffurfio yn benodol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, ac eithrio mewn ambell ranbarth. Hoffwn ni fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd arweiniad gryfach ar annog defnydd y Gronfa Trawsffurfio i blant a phobl ifanc.

'...Dim modd pennu blaenoriaethau yn ôl arian yn unig'

Aelod BPRh

Roedd pob Bwrdd wedi croesawu uchelgais y cyllid trawsffurfiannol newydd a'r cyllid ICF a neilltuwyd, ac fe soniodd sawl un fod cyllid sy'n canolbwyntio ar blant wedi gwneud i ranbarthau feddwl am blant a phobl ifanc lle na fyddent wedi gwneud hynny o'r blaen. Sylw aelod o un BPRh oedd bod y broses o rychwantu'r trefniadau cyfredol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth wedi 'rhoi rhyw syniad i'r bwrdd o sut brofiad i deuluoedd yw'r broses o gael hyd i gymorth'.

Gwnaeth sawl bwrdd y sylw bod y sbardun a gafwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, trwy gyllid ICF yn arbennig, a'r newidiadau sydd ar droed (fel yr oeddent ar adeg y cyfarfod gyda'r byrddau) i ganllawiau statudol Rhan 9, wedi arwain at fwy o ffocws ar blant a phobl ifanc yn y BPRh. Dywedodd un aelod o FPRh fod 'Llywodraeth Cymru wedi cymryd cam ymlaen wrth danlinellu bod ICF yn ymwneud â

phlant hefyd' a dywedodd un arall fod Llywodraeth Cymru wedi dangos yn eglur bod gwasanaethau plant a phobl ifanc yn 'flaenoriaeth genedlaethol'. Rydym wedi gweld drosom ein hunain lle bu ymateb clir i'r cyfeiriad hwn gan Lywodraeth Cymru, ac enghraifft o hyn fyddai'r weithred ddiweddar o sefydlu is-grwpiau i drafod materion plant a phobl ifanc, sydd bellach yn cael ei ddisgwyl o dan y canllawiau statudol diwygiedig.

Cyllid cynaliadwyr ar gyfer y tymor hir?

Mae BPRhau eu hunain a rhanddeiliaid wedi codi'r ffaith, er bod y cyllid sydd ar gael i FPRhau i'w groesawu'n fawr, bod uchelgeisiau hirdymor system iechyd a gofal cymdeithasol ddi-fwlch yn anodd eu gwireddu pan fo cyllid yn aml wedi'i warantu am gyfnod cymharol fyr yn unig (un neu ddwy flynedd fel arfer). Er bod y cyllid yn amlwg yn werthfawr iawn i 'gychwyn' prosiectau, clywson ni hefyd gan Fyrddau a ddywedodd ei fod yn anodd dangos gwerth wrth wneud cais am estyniadau i gyllid neu ffynonellau cyllid amgen mewn cyfnod o un neu ddwy flynedd pan yw'r newidiadau mae'r Bwrdd am eu gwneud, mewn rhai achosion, yn newid sylfaenol o ran diwylliant, a fydd yn galw am amser i wreiddio. Codwyd hefyd y mater ei fod yn anodd gwerthuso effeithiolrwydd prosiectau'n ddigon cyflym i ddarparu data ar gyfer ailgyflwyno cais neu ar gyfer cyfleoedd ariannu newydd oherwydd bod y byrddau'n gweithio yn ôl terfynau amser mor gaeth.

Ymddengys hefyd fod profiadau o brydlondeb dyraniadau cyllid wedi amrywio mewn gwahanol fyrddau, gyda rhai'n mynegi rhwystredigaeth ynghylch faint o amser maen nhw wedi gorfod aros i glywed gan Lywodraeth Cymru a yw eu ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus.

Dulliau gweithredu o'r brig i lawr neu o'r gwaelod i fyny?

Bu rhai yn rhannu gyda ni eu pryder ynghylch yr hyn roedden nhw'n ei weld fel 'targedau a orfodwyd' gan Lywodraeth Cymru. Er bod cytundeb cyffredinol mai dyma'r blaenoriaethau cywir, bu rhai yn rhannu pryderon ynghylch amcanion 'o'r brig i lawr' oedd yn destun cymhellion gan lifoedd ariannu. Teimlai rhai, lle mae 'targedau' yn cael eu pennu, fod hynny'n golygu bod rhaid i FPRhau gyflawni mewn ffyrdd penodol, nad ydynt o reidrwydd yn cynrychioli'r dull gorau yn lleol, gan fod yr amodau cysylltiedig â'r cyfleoedd ariannu yn cael eu gweld fel 'cyfarwyddyd', heb ddigon o hyblygrwydd. Mynegwyd barn gyda ni bod rhai yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru yn ymddiried digon mewn rhanbarthau i gyflawni yn eu hardal. Adlewyrchwyd y materion hyn yn adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ar yr ICF²⁶, lle nodwyd bod sut mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r gronfa a sut mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i defnyddio o bosib wedi cyfyngu ar botensial y gronfa.

Lle bu hyn yn broblem, dywedodd un aelod o fwrdd wrthym eu bod yn fwriadol yn ceisio symud oddi wrth 'wasanaeth sydd dim ond yn ffitio'r pot o arian'. Dywedodd un arall wrthyn ni 'fod dim modd pennu blaenoriaethau yn ôl arian yn unig'. Byddai'n destun pryder, wrth gwrs, petai rhanbarth yn gallu arddangos cynnig trawsffurfiannol oedd yn eu barn nhw'n cynnig yr ateb gorau i'w poblogaeth, ond nad oedd yn bodloni'r meini prawf ariannu.

²⁶ Swyddfa Archwilio Cymru (2019) *Cronfa Gofal Integredig*. Ar gael yn:

<https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/y-gronfa-gofal-integredig-adroddiad-cym.pdf>

Ein safbwynt ni, er ein bod yn cydnabod y pryderon hyn, yw bod angen i Lywodraeth Cymru roi arweiniad a chyfeirio BPRhau ar ffurf cymhellion ariannu a canllawiau. Mae modd dangos effeithiolrwydd hyn trwy sefydlu is-grwpiau ar gyfer plant a phobl ifanc, a defnyddio rhai cyfleoedd ariannu wedi'u neilltuo.

Galw am eglurder ynghylch gyfleoedd ariannu

Roedd rhai byrddau yn rhannu pryder bod y cyfuniad amrywiol, a allai fod yn gymhleth, o lifoedd ariannu sydd ar gael i FPRhau ar draws eu holl gyfrifoldebau yn gallu peri dryswch. Yn wir, gwelsom beth dryswch drosom ein hunain mewn cyfarfod y buon ni'n ei fynychu ynghylch y gwahanol lifoedd ariannu oedd ar gael. Roedd y dryswch yma'n ymwneud yn benodol â'r Cyllid Blynnyddoedd Cynnar ac Ataliaeth, a phenderfynodd y bwrdd fod angen iddyn nhw geisio eglurder ynghylch a oedd y cyllid ar gyfer y blynnyddoedd cynnar neu ataliaeth, neu'r ddau. Cafwyd apêl gan rai hefyd am gyflwyno cyfleoedd ariannu'n gliriach i'r byrddau – a rhoi gwybod iddynt cyn gynted â phosib bod y cyfle'n bodoli, er mwyn iddyn nhw gael amser digonol i baratoi cynigion. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos BPRhau, gan eu bod yn cwrdd yn gymharol anfynd, o gymharu â'r sefydliadau sy'n rhan ohonynt, ac yn aml bydd angen iddynt geisio cymeradwyaeth neu gyfraniad gan gydweithwyr yn eu hasiantaethau unigol cyn bod modd cytuno ar y cynnig a'i gyflwyno.

Agwedd rhanbarthol at drefniadau ariannu?

Cafwyd sylwadau bod talu grantiau i un asiantaeth, ar ran y BPRh ehangach, yn gallu arwain at wahaniaethu pŵer gan y gallai gofal cymdeithasol, er enghraifft, deimlo bod angen iddyn nhw droi at iechyd ar gyfer arian maen nhw'n ei gadw, er y dylai'r arian gael ei weld fel adnodd cyffredin a rennir. Rydyn ni'n falch o weld, felly, bod canllawiau statudol newydd Rhan 9 yn nodi:

...ychydig fel
marwolaeth yn y teulu

*Aelod FPRhau ar ddadleuon
rhwng darparwyr ar bwy ddylai
talu am wasanaethau*

Dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ystyried hefyd bod unrhyw gyllid a roddwyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru, megis y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsffurfio, yn fath ar gyllideb a gyfunir. Er na fydd hynny'n galw am gytundeb partneriaeth ffurfiol, dylai ymrwymo i unrhyw wariant o dan y Gronfa Gofal Integredig, neu lifoedd ariannu tebyg, fod yn destun cytundeb ysgrifenedig.

Newidiwyd rheoliadau partneriaeth Rhan 9 yn 2019²⁷ i gynnwys gofyniad bod cyrff partneriaeth yn 'sefydlu a chynnal cronfa ranbarthol a rennir ar gyfer ymarfer eu lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn a swyddogaethau cymorth i deuluoedd'. Mae'r rheoliadau diwygiedig yn mynd ymlaen i ddweud nad oes 'dim yn y rheoliad hwn yn atal cyrff partneriaeth rhag sefydlu a chynnal cronfeydd a gyfunwyd neu gronfeydd rhanbarthol a gyfunwyd er mwyn cyflawni unrhyw swyddogaethau eraill'. Mae canllawiau statudol diweddaraf Rhan 9 yn awr yn nodi 'y dylai BPRhau ystyried datblygu trefniadau cronfa a rennir ar gyfer Gwasanaethau megis... gofal preswyl i blant ag anghenion cymhleth'. Fodd bynnag, rydym yn credu

²⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) *Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth (Amrywiol Newidiadau)(Cymru) 2019 – Rhif 760 (W.143)*. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/760/made>

y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud cronfa a gyfunwyd yn ofynnol er mwyn sicrhau dull 'dim drws anghywir' ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, gan nad yw pob rhanbarth yn arddangos gwasanaeth amlwg ddi-fwlch yn y tymor hir ar gyfer eu plant a'u pobl ifanc. Gallai hyn fod yn benodol at ddibenion modelau cymorth cynnar amlasiantaeth, neu ar gyfer darpariaeth breswyl i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol mwyaf cymhleth.

Er bod pob Bwrdd yn croesawu'r cyllid trawsffurfiannol newydd, disgrifiodd aelod o un BPRh y cyllid trawsffurfiannol, er ei fod i'w groesawu, 'ychydig fel marwolaeth yn y teulu', gan fod y gwasanaethau unigol a'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn dadlau ynghylch yr arian a'r ffordd orau o'i wario. Yn amlwg, nid yw'r ymateb hwn yn gweld cyfleoedd ariannu fel rhywbeth rhanbarthol, er mwyn i holl ardaloedd y rhanbarth elwa.

Nid yw'r Byrddau eu hunain wedi defnyddio cyllid hyd eithaf ei botensial, gan fod sawl enghraifft o gyllid ICF, er enghraifft, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau sydd ddim yn cefnogi dull gweithredu rhanbarthol, ond sydd yn hytrach wedi'u llunio i ganolbwyntio ar wasanaeth penodol mewn rhan benodol o'r rhanbarth, heb gynlluniau ar gyfer uwchraddio'r arfer hwnnw. Bu rhai byrddau'n trafod y posibilrwydd y gallai'r agenda ranbarthol dynnu'n groes i drefniant rhai ardaloedd oherwydd polisi hanesyddol. Yr enghraifft a roddwyd gan fwy nag un aelod o fyrddau oedd y ffocws blaenorol ar gyllid Cymunedau yn Gyntaf, oedd yn targedu ardaloedd penodol. Ym marn rhai, o osod y manteision o'r neilltu, roedd hyn i bob pwrpas yn creu loteri côd post, tra bod y dull gweithredu rhanbarthol yn un teg ar draws rhanbarthau amrywiol. Mae angen newid diwylliant fel bod rhanbarthau'n wir yn meddwl yn rhanbarthol, yn hytrach na bod gwasanaethau neu ardaloedd yn cystadlu â'i gilydd am arian. Dylasai hynny wedi digwydd cyn hyn, ac mae'n destun pryder i ni glywed bod yr agweddau hyn yn dal i fodoli.

Rhan 2: Beth mae BPRhau yn ei wneud i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed?

Dwedodd aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid Cenedlaethol...

Cynnwys pobl ifanc yn eich cyfarfodydd gan ein bod ni am gynnig ein syniadau neu ein cefnogaeth

Sicrhau bod person ifanc yn cynrychioli'r rhanbarthau a'r Byrddau Iechyd, ochr yn ochr â'r bobl 'ffansi'

"Sut gallen nhw bod yn fyrdau 'partneriaeth' os nad ydyn nhw'n gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a phobl ifanc?"

O dan erthygl 12 o CCUHP mae gan bob plentyn 'sy'n gallu ffurfio'i f/barn ei hun hawl i fynegi'r farn honno'n rhydd ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, a bod pwysau priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn unol ag oed ac aeddfedrwydd y plentyn.'²⁸ Mae canllawiau statudol diwygiedig Rhan 9 ar drefniadau partneriaeth²⁹ hefyd yn datgan bod 'rhaid i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau chwarae rhan weithredol ac ymwneud â gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol', ac mae disgwyl i FPRhau ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Fforymau Gwerth Cymdeithasol (sy'n cynnwys cyrff trydydd sector, cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol) yn eu rhanbarth³⁰.

Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys

Er ei fod yn galonogol bod is-grwpiau penodol sy'n canolbwyntio ar faterion plant a phobl ifanc bellach yn weithredol ym mhob BPRh yng Nghymru, mae ymgysylltu uniongyrchol a chynhyrchu ar y cyd â phlant a phobl ifanc yn llai amlwg. Roedd sawl un o'r byrddau'n cydnabod bod angen gwneud mwy i gynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yn eu gwaith, ac i roi iddynt y sgiliau i fedru cyd-gynhyrchu elfennau o waith y byrddau. Pan fuon ni'n ymweld â nhw, dywedodd y rhan fwyaf o'r byrddau wrthyn ni eu bod wrthi'n ystyried y ffordd orau o gynnwys llais plant a phobl ifanc yng ngwaith y bwrdd, ond ni allai'r mwyafrif ddangos yn foddhaol waith roedden nhw eisoes wedi'i wneud i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith.

Roedd arwyddion calonogol yn y rhan fwyaf o'r byrddau bod mwy o ddealltwriaeth o'r angen am 'wneud gyda, yn hytrach nag i', fel y dywedodd cynrychiolydd o blith y dinasyddion wrthyn ni mewn un rhanbarth.

²⁸ <https://www.complancymru.org.uk/confensiwn-y-cenhedloedd-unedig-ar-hawliaur-plentyn-testun-llawn/>

²⁹ Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 9, Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/rhan-9-canllawiau-statudol-trefniadau-partneriaeth.pdf>

³⁰ Canolfan Gydweithredol Cymru (2018) *Pecyn Offer i Ddatblygu Fforymau Gwerth Cymdeithasol*. Ar gael yn: <http://walescoop.wpengine.com/wp-content/uploads/2018/09/walescoop-social-values-welsh.pdf>

Er enghraifft, bu un rhanbarth yn trafod cynlluniau i sicrhau bod gallu i amlinellu sut byddai lleisiau plant yn dylanwadu ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn rhan o'u prosesau comisiynu.

Fe welson ni lefel gymysg o ymwneud ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Roedd rhai Byrddau yn pennu blaenoriaethau'r is-grŵp ar sail ymgynghori uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, a da gweld hynny. Dewisodd byrddau eraill gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'u fforymau ieuencid lleol i sicrhau eu bod yn gallu dylanwadu ar waith y bwrdd. Roedd gan rai byrddau bobl ifanc yn eistedd ar yr is-grŵp plant a phobl ifanc. Rhannodd un bwrdd y sylw fod mynychu ystod o fforymau yn gallu peri i bobl ifanc ymlâdd, ac felly eu bod nhw'n ceisio meddwl am ffyrdd gwahanol o'u cynnwys sydd ddim yn galw am fynychu mwy o gyfarfodydd. Bydden ni'n awgrymu ystyried cynhyrchu ar y cyd neu ddarparu hyfforddiant fel comisiynwyr ifanc, fel bod y bobl ifanc yn teimlo eu bod yn gwneud cyfraniad uniongyrchol i bolisiau a gwaith comisiynu'r bwrdd.

Astudiaeth Achos:

BPRh Caerdydd a'r Fro

Cynhaliodd BPRh Caerdydd a'r Fro ymarferiad 'Gwranddo ar Deuluoedd' yn 2018 oedd yn gofyn am brofiadau pobl ag anableddau dysgu, a'u disgwyliadau. Roedd y disgwyliadau hynny'n cynnwys ymateb ymyrraeth gynnar rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol, cyllidebau wedi'u crynhoi, dilynant staff, cael gwrandawriad, symleiddio apwyntiadau ac adolygiadau, amgylcheddau addas i blant wrth fynychu apwyntiadau, gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion, gweithiwr allweddol neu berson arweiniol, a rhywun i gynorthwyo gyda mân dasgau heb fod angen atgyfeirio'n barhaus.

Mae'r Comisiynydd wedi cynhyrchu fframwaith o'r enw *Y Ffordd Gywir*, a luniwyd i helpu gwasanaethau cyhoeddus i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc³¹. Byddem ni'n annog BPRhau i ddefnyddio'r fframwaith hwn i'w cynorthwyo i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Byddem ni hefyd annog BPRhau i edrych dros ac i weithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol³².

³¹ Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Y Ffordd Gywir*. Ar gael yn: <https://www.complancymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/>

³² Llywodraeth Cymru (2016), *Cael llais, cael dewis: safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc>

Astudiaeth Achos: BPRh Cwm Taf Morgannwg

Mae BPRh Cwm Taf Morgannwg wedi gwneud cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy yn eu gwaith yn flaenoriaeth. Ffurfiwyd blaenoriaethau strategol y Bwrdd ei hun trwy weithio gyda phobl ifanc, er enghraifft trwy Fforymau Ieuenctid a phrosiectau unigol sydd wedi defnyddio dull cynhyrchu ar y cyd i lunio gwasanaethau gyda phobl ifanc. Bellach mae'r Bwrdd yn gweithio i ddatblygu trefniadau mwy hirdymor ar gyfer cynhyrchu ar y cyd. Er enghraifft, mae angen i'r meini prawf sgorio ar gyfer grantiau ICF trydydd sector sydd ar gael i brosiectau sydd â ffocws ar blant ag anghenion cymhleth gynnwys yr angen am ddatblygu agwedd gyd-gynhyrchiol at wella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Bydd angen hefyd i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu gweithdy cyd-gynhyrchu.

Y cam nesaf ar gyfer y BPRh fydd cynnal gweithdy gyda phobl ifanc, lle bydd Cadeirydd y BPRh yn bresennol, er mwyn datblygu dull strategol mwy hir dymor, ar y cyd â'r bobl ifanc, o ran sut maen nhw am ymwneud â chyd-gynhyrchu gwaith y Bwrdd. Nid oedd y bobl ifanc yn awyddus i eistedd ar yr is-grŵp plant neu ar y bwrdd yn unig, gan eu bod yn teimlo y gallai hynny fod yn docynistaidd, ac maent wedi dweud wrth y BPRh eu bod am i'w hymwneud fod yn ystyrlon. Mae grŵp strategol y bwrdd ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cynrychiolwyr oedd yn mynychu Fforymau Ieuenctid yn y rhanbarth, i gynnig cyfres o flaenoriaethau, lle bydd y prif bryderon yn ymwneud â iechyd emosiynol, llesiant a iechyd meddwl. Bydd y grŵp strategol yn cael ei dywys gan y flaenoriaeth hon yn eu gwaith.

Gan fod Cwm Taf Morgannwg yn rhanbarth newydd ei ffurfio, maen nhw'n manteisio ar y cyfle i gynnal ymarferiad mapio o'r ddarpariaeth bresennol ar draws y rhanbarth, o'r cyffredinol i'r arbenigol, ac o feichiogi at 25 oed. Nodwyd cyllid refeniw ICF hefyd ar gyfer datblygu cymorth cymunedol a thrydydd sector ar gyfer plant a phobl ifanc.

Ymwneud uniongyrchol a chynhyrchu ar y cyd

Yn ein gohebiaeth gyda nhw, na phan fuon ni'n cwrdd â nhw, ni ddangosodd sawl un o'r BPRhau fod plant a phobl ifanc yn ymwneud yn uniongyrchol â'u gwaith. Er bod un bwrdd wedi ymrwymo'n ddiweddar i weithio'n unol ag egwyddorion cynhyrchu ar y cyd, ac wedi dweud wrthyn ni eu bod wrthi'n sefydlu strwythurau i alluogi hynny, yn bendant nid oes digon o dystiolaeth bod cynhyrchu ar y cyd yn cael ei ddefnyddio ar draws gwaith y byrddau. Adlewyrchwyd hynny hefyd ym marn y rhanddeiliaid. Dywedodd cynrychiolydd o blith y dinasyddion wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo 'nad oedd ymdeimlad o berchnogaeth gyfartal i blant a phobl ifanc' yn yr is-grŵp (â ffocws ar blant a phobl ifanc) yr oedden nhw'n mynd iddo. Hoffen ni annog pob bwrdd i ystyried y ffordd orau iddyn nhw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso fel dinasyddion i berchnogi elfennau penodol o raglen waith y Bwrdd, lle mae'r cynlluniau hynny'n effeithio arnynt.

Mae canllawiau statudol Rhan 9 Llywodraeth Cymru, a newidiwyd yn ddiweddar, yn cynnwys estyn adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i FPRhau. O fis Chwefror 2020, felly, mae bellach yn ofynnol bod BPRhau yn 'gwneud y trefniadau y mae'n barnu eu bod yn addas i hybu a hwyluso cyfranogiad plant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt'; yn cyhoeddi gwybodaeth am y trefniadau hynny, ac yn diweddar'u wybodaeth honno'n gyson³³. Ar sail yr hyn rydyn ni wedi'i weld wrth ymweld â'r byrddau, bydd angen i sawl un ohonynt newid eu dull gweithredu cyfredol i gyflawni hyn.

Astudiaeth Achos: Gorllewin Cymru

Mae'r BPRh wedi gweithio gyda phobl (gan gynnwys pobl ifanc) ag anableddau dysgu ac eraill i ddatblygu Siarter Anabledd Dysgu Gorllewin Cymru sy'n cynnwys rhestrau o'r pethau mae pobl ag anableddau dysgu am eu cael, gan gwmpasu hawliau dynol, mynediad at gyfleusterau ac asedau cymunedol, perthnasoedd, bywyd cymdeithasol, cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol ac eiriolwyr, cymorth iechyd, cymorth i fod yn annibynnol, a chymorth i fedru cyfathrebu yn y ffordd sy'n gweithio orau i'r unigolyn.

Oedolion sy'n gweithredu ar ran plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt

Dywedodd y rhanddeiliaid y buon ni'n siarad â nhw wrthyn ni nad oedd y Fforymau Gwerth Cymdeithasol, y mae pob BPRh yn gyfrifol am eu sefydlu ac ymgysylltu â nhw o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant³⁴, yn cael eu defnyddio fel y dylent. Adlewyrchwyd hynny yn yr angen am y pecyn offer a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganolfan Gydweithredol Cymru,³⁵ sy'n amlinellu sut dylai BPRhau fod yn defnyddio'u Fforymau Gwerth Cymdeithasol i sicrhau bod barn eu poblogaethau lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn cyrraedd y bwrdd ac yn rhan o'u gwaith. Dywedodd un cynrychiolydd o blith y dinasyddion wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo y gallai fod rhwydwaith cenedlaethol i gefnogi cynrychiolwyr sy'n ddinasyddion, fel eu bod nhw'n teimlo cefnogaeth, gan fod mynd i gyfarfodydd BPRh yn gallu bod yn brofiad ynysig. Rydyn ni hefyd yn pryderu am ymwneud partneriaid trydydd sector, fel sy'n derbyn sylw yn rhan 5 o'r adroddiad hwn.

Mae mater ehangach yn codi yng nghyswllt pwysigrwydd ymwneud dinasyddion â gwaith y BPRhau. Yn ogystal â phwysigrwydd adlewyrchu materion yn y rhanbarth yn briodol, mae ymgysylltu'n weithredol â dinasyddion yn hanfodol i sicrhau bod pobl sy'n byw yn eich rhanbarth yn 'ymuno' â'r prosiect trawsffurfio rhanbarthol, ac yn mynd ar y daith honno, fel yr amlinellwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn eu hadolygiad diweddar o ymrwymiad Cymru *lachach* i ymgysylltu â'r cyhoedd³⁶. Rydyn ni'n rhoi sylw pellach

³³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010*. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/section/12>

³⁴ Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhan 2 Côd Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-2-swyddogaethau-cyffredinol.pdf>

³⁵ Canolfan Gydweithredol Cymru (2018) *Pecyn Offer i Ddatblygu Fforymau Gwerth Cymdeithasol*. Ar gael yn: <http://walescoop.wpengine.com/wp-content/uploads/2018/09/walescoop-social-values-welsh.pdf>

³⁶ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2020) *Ymgysylltu â'r Cyhoedd a 'Chymru lachach'*. Ar gael yn: <https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/ymgysylltu-ar-cyhoedd-a-cymru-lachach/>

i'r angen am lawer mwy o dryloywder, hygyrchedd ac atebolrwydd yng ngwaith y bwrdd yn rhan 5 o'r adroddiad hwn.

Wedi nifer o'r cyfarfodydd Bwrdd y buon ni ynddyn nhw, fe sylwon ni fod cynrychiolwyr o blith y dinasyddion yn dilyn staff allan o'r cyfarfod i godi materion gyda ni, neu'n mynd ar eu hôl gyda'r fîm wedyn. Dywedodd rhai o'r cynrychiolwyr hyn wrthyn ni eu bod nhw ddim yn teimlo y gallen nhw gyfrannu yn llawn yn ystod y prif gyfarfodydd, eu bod nhw'n teimlo mai eu diben yw rhoi 'sêl bendith', gan fod blaenoriaeth i'w gweld yn cael ei rhoi i'r prif asiantaethau statudol gyntaf wrth gyfrannu at bob eitem sydd i'w trafod, neu nad oedd trefniant y cyfarfodydd yn golygu eu bod yn teimlo eu bod nhw'n gallu gwneud cyfraniad.

Rhan 3: Dim Drws Anghywir ar gyfer plant ag anghenion cymhleth sy'n profi problemau llesiant emosiynol neu iechyd meddwl

Dyw iechyd meddwl ddim yn ddu a gwyn, mae'n lliwgar

Fel yr amlygodd yr astudiaethau achos mewn adran flaenorol o'r adroddiad hwn, dylai plant a phobl ifanc dderbyn ymateb amlddisgyblaeth sy'n cofleidio'u

Aelod GRhIC hanghenion, p'un a ydynt wedi cael diagnosis ffurfiol (megis anhwylder iechyd meddwl neu niwroddatblygiadol) neu beidio. Yn rhy aml, rydyn ni'n disgwyl i blant ffitio i flychau'r gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, er mai anaml y bydd anghenion unigolyn yn ffitio'n dwt i'r naill flwch na'r llall.

Ail ran argymhelliad y Comisiynydd i Lywodraeth Cymru yn Adroddiad Blynyddol 2017-18 oedd...

...bod gofyn i FPRhau gymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd meddwl plant i dimau amlddisgyblaeth a fydd yn ymateb i anghenion eu poblogaethau plant a phobl ifanc lleol sydd angen cymorth a thriniaeth emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl.

Bydd y rhan hon o'r adroddiad yn archwilio pa mor bell mae BPRhau wedi dod wrth greu dull 'dim drws anghywir' ar gyfer plant sydd ag anghenion emosiynol a iechyd meddwl.

Darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc ar sail lefelau trallod

Nid y Comisiynydd yn unig sydd wedi galw am newid ffocws at ymateb i angen, heb ystyried a oes diagnosis ffurfiol. Cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd adroddiad o'r enw *Cadernid Meddwl*³⁷ ym mis Ebrill 2018 ar eu hymchwiliad i gymorth iechyd meddwl ac emosiynol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Ym mis Awst 2019 cyflwynodd y pwyllgor sawl argymhelliad dilynol³⁸ yn amlygu bylchau allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt.

Canfu'r pwyllgor fod:

- 'Canol coll' o ran y plant y bernir nad ydynt yn ddigon sâl i dderbyn triniaeth iechyd meddwl arbenigol, ond sydd wedyn ddim yn derbyn cefnogaeth arall.
- Yr amserau aros ar gyfer asesiad CAMHS wedi gwella, ond nad oes fawr ddim tystiolaeth bod hynny wedi arwain at driniaeth yn gynt.

³⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) *Cadernid Meddwl – Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru*. Ar gael yn:

<https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf>

³⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) *Llythyr at y Gweinidog dros Addysg a'r Gweinidog dros Iechyd, Llywodraeth Cymru, gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 8 Awst 2019*. Ar gael yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s92917/Llythyr%20at%20y%20Gweinidog%20Addysg%20ar%20Gweinidog%20Iechyd%20a%20Gwasanaethau%20Cymdeithasol%20-%208%20Awst%202019.pdf>

Cyflwynodd y pwyllgor gyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru oedd yn cynnwys yr angen am 'amlinellu sut mae'n bwriadu rhoi sylw i'r heriau a wynebir gan y grŵp o blant a phobl ifanc sydd ddim yn cyrraedd y trothwy ar gyfer CAMHS arbenigol, ond nad oes gwasanaethau eraill ar gael ar eu cyfer'; sicrhau bod therapïau seicolegol ar gael yn fwy hwylus i blant a phobl ifanc sydd angen hynny; cyflwyno cynllun clir ar gyfer cefnogi'r 40-50 y cant o blant a phobl ifanc yr amcangyfrifir eu bod heb gyrraedd y trothwy ar gyfer diagnosis niwroddatblygiadol, ond sy'n profi trallod ac sydd angen help; a gwella'r ddarpariaeth mewn argyfwng a'r tu allan i oriau.

Amlygodd y pwyllgor rôl benodol ysgolion wrth gefnogi pobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl ac emosiynol, yn ogystal â'r gwasanaeth ieuentid, cyfiawnder ieuentid, a'r holl asiantaethau hynny sy'n ymwneud â bywyd y plentyn neu'r person ifanc.

Integreiddio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n arddangos trallod emosiynol a materion iechyd meddwl

Fe ddarganfuon ni, er bod y rhan fwyaf o FPRhau yn gallu dangos bod ganddynt gilfachau o arfer da o ran integreiddio gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n profi trallod emosiynol, bod bron pob enghraifft o'r rhain heb gael eu huwchraddio ar draws y rhanbarth. O ystyried ffocws cyllid Llywodraeth Cymru, roedd yn destun pryder, er gwaethaf y cymhellion hyn, nad oedd fawr ddim enghreifftiau o gynlluniau pendant i ddefnyddio'r arian hwnnw i uwchraddio arfer da.

Ar sail ein trafodaethau gyda'r BPRhau, cawsom hyd i sawl enghraifft lle nad yw gwasanaethau wedi'u cysylltu'n ddigonol eto i ymateb i blant a phobl ifanc mewn trallod sydd angen help. Er enghraifft, clywson ni gan ranbarthau lle mae gan y bwrdd iechyd system Un Pwynt Mynediad ar gyfer iechyd meddwl plant, ond lle nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn bartneriaid yn y gwasanaeth hwnnw. Dywedodd rhanbarthau wrthyn ni nad yw gwasanaethau iechyd meddwl yn ddigon ymatebol i blant a phobl ifanc, pryd bynnag bydd angen hynny. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl y tu allan i oriau ysgol yn gyfyngedig, os oes rhai o gwbl, yn y rhan fwyaf o ranbarthau. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau cleifion mewnol, sydd ddim yn derbyn cleifion ar y penwythnos.

Darpariaeth breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth

Mae'r Comisiynydd wedi annog BPRhau i ystyried sut gallan nhw gynnig darpariaeth breswyl newydd ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth sydd angen mewnbwn iechyd meddwl a gofal cymdeithasol mewn un lle. Lle roedd rhanbarth yn awyddus i gynnig darpariaeth breswyl newydd i blant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth, dywedon nhw wrthyn ni eu bod nhw'n wynebu her benodol lle mae awdurdodau lleol yn methu cytuno ar ymrwymo refeniw. Roedd hyn yn deillio o'r ffaith bod un awdurdod lleol yn methu arddangos yr un lefel o angen ag eraill, ac felly roedd yn amharod i ymrwymo refeniw ar draws y rhanbarth cyfan. Mewn perthynas â chomisiynu gwelyau mewn llety iechyd neu ofal cymdeithasol diogel, dywedodd byrddau wrthyn ni fod gan awdurdodau lleol strategaethau

comisiynu ar wahân, oedd yn golygu bod sicrhau dull gweithredu cydlynus ar draws y rhanbarth yn anodd. Dywedwyd wrthyn ni hefyd, pan fydd pobl ifanc yn pontio i wasanaethau oedolion ac angen darpariaeth breswyl, gall eu lleoliad preswyl newydd fod yn brofiad gwahanol iawn i'w llety blaenorol, gyda llai o amser tu allan a llai o weithgareddau'n cael eu cynnig, er enghraifft.

Prinder darpariaeth breswyl addas

Soniodd Byrddau wrthyn ni am eu rhwystredigaeth ynghylch anallu i gael mynediad at lety i bobl ifanc sydd angen hynny, a hynny'n amserol oherwydd nad oes gwelyau diogel i gleifion mewnol y GIG yng Nghymru. Mae'r amserau aros ar gyfer gwelyau diogel yn broblem ar draws y Deyrnas Unedig, sy'n golygu bod galw aruthrol am yr holl gyfleusterau llety diogel. Lle caiff plant a phobl ifanc eu rhoi mewn llety diogel, gallai'r plentyn neu'r person ifanc fynd i nifer o leoliadau ledled Lloegr, a hyd yn oed mor bell â Glasgow yn yr Alban.

Soniodd BPRhau wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo'n gyfyngedig o ran y camau y gallan nhw eu cymryd, gan fod angen cael diagnosis o anhwylder iechyd meddwl er mwyn cael mynediad i wely iechyd meddwl, ac yn gysylltiedig â hynny, mae problem gwahaniaethau ieithyddol rhwng salwch meddwl a risg iechyd meddwl. Dywedodd aelod o un BPRh wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo bod y model cyfredol o haenau ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn 'ddiffygiol' ac yn gadael 'mynydd iâ' o angen heb ei ddiwallu.

Fel yr adlewyrchwyd yn ein hastudiaethau achos yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cyfeiriodd tystiolaeth y BPRhau hefyd at sefyllfa lle mae gwasanaethau'n methu cytuno a ddylid lleoli person ifanc sydd ag anghenion cymhleth a phroblemau iechyd meddwl mewn lleoliad iechyd meddwl neu ofal cymdeithasol diogel, ac mae hynny'n arwain at oedi a lleoliadau amhriodol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc dan sylw.

Galw am integreiddio a chapasiti i wneud hynny

Cyfeiriodd y Byrddau at gynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc oedd yn troi atynt mewn argyfwng, a chynnydd mawr yn y galw am wasanaethau niwroddatblygiadol, fel yr adlewyrchwyd yn genedlaethol³⁹. Dywedwyd wrthym nad oes gofal a chymorth ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd â'r anghenion cymorth emosiynol ac ymddygiad mwyaf heriol ar gael i lawer oherwydd prinder staff arbenigol. Dywedwyd wrthym hefyd fod problemau recriwtio penodol yn y gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc sydd yn y cyfnod cynnar o brofi problemau iechyd meddwl.

Rhannodd BPRhau oedd ag olion traed daearyddol arbennig o fawr a/neu problemau penodol oherwydd sefyllfa oedd gwledig gyda ni eu bod yn teimlo bod sicrhau gwasanaethau teg yn fwy anodd oherwydd y pellter mae angen ei gwmpasu a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i wasanaethu eu poblogaethau.

³⁹ Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2019) *Adroddiad Dilydol Cadernid Meddwl: Diweddariad ar y Rhaglen gyda'n gilydd dros Blant a Phobl Ifanc*. Ar gael yn: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s87903/CYPE5-15-19%20-%20Papur%20iw%20nodi%203%20Saesneg%20yn%20unig.pdf>

Dyweddodd rhai byrddau wrthyn ni ei fod hefyd yn anoddach i ardaloedd gwledig gyflawni 'mas critigol' i ddangos bod angen gwasanaethau yn eu hardal. Gwnaed y sylw bod 'popeth yn costio mwy' wrth geisio integreiddio gwasanaethau ar draws ardal wledig eang.

Dyweddwyd wrthyn ni fod y problemau galw a chapasiti hyn yn gallu golygu ei fod yn anodd i weithwyr proffesiynol weithio ar draws timau, er enghraifft cynnwys gweithwyr cymdeithasol yng ngwaith rhai timau CAMHS, gan nad oes capasiti i weithwyr proffesiynol gael eu gwreiddio yng ngwaith tîm arall.

Mae'r heriau hyn yn adlewyrchu llawer o'r hyn glywsom ni gan wasanaethau unigol, yn ogystal ag adlewyrchu canfyddiadau adroddiad Cadernid Meddwl Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd. Mae gennym ni ddiddordeb mewn gwybod sut mae BPRhau naill ai'n mynd i'r afael â'r heriau hyn, neu o leiaf yn eu lliniaru.

Ymatebion – Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Well

Mae'r holl fyrddau o leiaf wedi dechrau meddwl am sut gallan nhw ddarparu cymorth cynnar a chefnogaeth well i blant a phobl ifanc mewn trallod, a hynny mewn ffordd integredig. Fe ddysgon ni fod BPRhau yn cydnabod yr angen am ymyrraeth gynnar yn achos plant sydd ag anghenion cymhleth a/neu faterion llesiant emosiynol neu iechyd meddwl oedd yn dod i'r amlwg.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd yr angen am ymateb cymunedol di-fwllch i sefyllfaoedd lle gwneir atgyfeiriadau CAMHS ac mae person ifanc naill ai'n disgwyl asesiad, neu wedi clywed nad yw'n bodloni'r meini prawf i gael cefnogaeth. Dywedodd rhanddeiliaid wrthyn ni nad oes digon o gefnogaeth ar gyfer teuluoedd sy'n cynnal eu plentyn trwy'r gwasanaethau iechyd meddwl.

Roedden ni'n falch o weld, fel mae rhai o'r astudiaethau achos sy'n dilyn yn dangos, bod rhanbarthau'n dechrau darparu'r ymateb hwn, neu'n ystyried eu dull gweithredu. Fe welson ni fod tri model gwahanol yn cael eu treialu (ar ffurf pwyntiau bwled) ar gyfer y canlynol:

- Mae rhai ardaloedd wedi dewis mynd ar ôl model 'canolbwynt', lle dylai gwasanaethau fod ar gael i deuluoedd eu cyrchu o un man.
- Mae eraill wedi datblygu model 'panel', lle mae amgylchiadau plant unigol yn cael eu trafod mewn un ystafell gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, a lle mae cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith ar unwaith.
- Dull arall yw 'gwreiddio' gweithwyr proffesiynol o un gwasanaeth mewn un arall (er enghraifft gweithwyr CAMHS proffesiynol yn gweithio'n uniongyrchol mewn timau gwasanaethau cymdeithasol, neu gydag ysgolion) i roi cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth, fel bod modd defnyddio'u harbenigedd gan y gweithwyr proffesiynol hynny sydd â'r cyswllt mwyaf rheolaidd â'r bobl ifanc dan sylw.

‘Mae enghreifftiau da mewn
gwahanol rannau o Gymru lle
mae rhanbarthau’n dechrau dod â
gwasanaethau ynghyd i helpu plant
sydd ag anghenion cymhleth’



O'u gwneud yn y ffordd iawn, rydyn ni'n credu bod rhinweddau i bob un o'r dulliau hyn, ac y gallen nhw wella'r ymateb i blant a'u teuluoedd yn sylweddol.

Astudiaeth Achos: RPRh Powys

Mae BPRh Powys wedi defnyddio cyllid ICF i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc sy'n profi anawsterau iechyd meddwl a llesiant, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf o ran iechyd meddwl, ond sydd angen cefnogaeth serch hynny. Mae gweithwyr CAMHS ychwanegol yn darparu asesiadau a sesiynau ymgynghori â phobl ifanc, teuluoedd a gwasanaethau, ac yn sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei chyrchu wedyn naill ai trwy sesiynau cymorth 1:1 neu waith grŵp. Mae cymorth unigol yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Ymyriadau Ieuencid, i gynnwys gwaith ynghylch rheoleiddio emosiynol, hyder, hunan-barch a meithrin gwydnwch. Mae'r gwasanaeth cwnsela ym Mhowys yn cynnal sesiynau grŵp mewn ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc gyda llesiant emosiynol, gan archwilio materion fel gorbryder a straen arholiadau. Mae'r Gwasanaeth Ymyriadau Ieuencid hefyd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ddim yn cael eu haddysg mewn lleoliadau ysgol prif ffrwd, gan ddarparu gwybodaeth a chymorth ynghylch iechyd a llesiant emosiynol. Mae Gwasanaeth Ieuencid Powys a thîm Datblygu Chwaraeon Powys yn darparu ystod eang o gyfleoedd a gweithgareddau, yn ogystal â mentora cyfoedion, i gefnogi iechyd a llesiant emosiynol.

Dylech chi fedru mynd atyn nhw a byddan nhw'n eich helpu chi. Ddylech chi ddim cael eich anfon i ffwrdd i ddarganfod yr holl wasanaethau gwahanol eich hun"

Aelod GRhIC

"Dylai pobl ifanc fod yn ganolog i'r holl wasanaethau cefnogi ac ni ddylai fod rhwystrau fydd yn atal pobl ifanc rhag derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw ac maen nhw'n ei haeddu

Aelod GRhIC

Astudiaeth Achos:

BPRh Gwent

Mae BPRh Gwent wedi datblygu model o baneli Un Pwynt Mynediad ar gyfer Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl Plant (SPACE-Wellbeing). Mae'r paneli hyn ar waith ar draws ardaloedd 5 awdurdod lleol Gwent. Mae'r gwaith hwn wedi adeiladu ar y 'Paneli Cymorth Cynnar' oedd eisoes yn eu lle yn Sir Fynwy a Chasnewydd, ac wedi ehangu ar draws ardaloedd y tri awdurdod lleol arall, sef Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent. Mae 'uwchraddio'r' paneli hyn wedi cael ei gyflawni trwy gyllid trawsffurfio ac arloesedd iechyd meddwl. Defnyddiwyd peth o Arian Trawsffurfio Llywodraeth Cymru hefyd i ariannu'r prosiect hwn.

Mae'r paneli'n cwrdd unwaith yr wythnos ac yn derbyn atgyfeiriadau o ffynonellau lluosog: Meddygon Teulu, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, ond hefyd rhieni a theuluoedd. Derbynnir atgyfeiriadau ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth, a allai gynnwys hanes o drawma, problemau teuluol, anhwylderau iechyd meddwl, anghenion gofal cymdeithasol, ac anabledd.

Mae'r rhai sy'n mynychu'r panel y bu'r Comisiynydd yn ymweld ag ef yn Sir Fynwy (Panel Cymorth Cynnar Sir Fynwy) yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o wasanaethau: gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac arbenigol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaeth chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol, gwasanaeth Meithrin Teuluoedd Cryfach, darpariaeth iechyd meddwl y trydydd sector, gwasanaeth pontio anabledd dysgu, sefydliad gofalwyr ifanc, gwasanaethau tai, a gwasanaethau menter ieuenctid.

Yn y cyfarfod hwn o'r panel, trafodwyd mwy na 20 o blant a phobl ifanc mewn cyfnod o 1½ awr. Trefnwyd ymyriad ar unwaith ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc (neu ddilyniant o ymyriadau lle roedd hynny'n briodol). Roedd y rhain yn amrywio o ymweliad syml i gwrdd â'r person ifanc dros banded o de a thrafod opsiynau cymorth lleol, cynnig i ymuno â grŵp cefnogi gofalwyr ifanc, cefnogaeth i ymuno â gweithgaredd cymdeithasol neu chwaraeon, cwnsela profedigaeth neu therapi chwarae i ymwneud â CAMHS arbenigol, mewn nifer bach o achosion. Nod y panel yw cymryd i ystyriaeth holl amgylchiadau'r teulu os yw hynny ar gael iddyn nhw, ac ymateb i'r holl anghenion sy'n berthnasol i'r person ifanc dan sylw, i'r graddau mae hynny'n bosib.

Mae gwerthusiad o'r paneli ar waith ar hyn o bryd, ond gall y bwrdd ddangos bod gostyngiad yn y galw am iechyd meddwl arbenigol i blant, o ganlyniad i ddrynnu ffynonellau cefnogaeth eraill mwy priodol i blant a theuluoedd trwy'r paneli.

Astudiaeth Achos: BPRh Gogledd Cymru

Gwnaeth BPRh Gogledd Cymru gais llwyddiannus am arian o Gronfa Trawsffurfio Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith a seiliwyd ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol a gyflwynir yn lleol yn y tair ardal (Gorllewin, Canolbarth a Dwyrain) yng Ngogledd Cymru.

Y maes gwaith cyntaf yw 'cymorth a chefnogaeth yn gynnar' – cymorth integredig gan gynnwys dulliau newydd o roi cymorth cynnar a chyrchu cymorth therapiwtig. Bydd hyn yn adeiladu ar enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli fel Canolbwyt Cymorth Cynnar Sir y Fflint, sef gwasanaeth amlasiantaeth sy'n cydleoli gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau cymdeithasol, Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd, Cyfiawnder Ieuencid, Addysg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymorth Blynnyddoedd Cynnar ac eraill, gan gynnwys y trydydd sector. Mae cydlynnydd trydydd sector yn gweithredu fel pwynt cyswllt – yn gweithio gyda'r teulu i gael hyd i atebion yn y gymuned fydd yn diwallu eu hanghenion.

Mae Gogledd Cymru hefyd yn bwriadu darparu 'cymorth ar gyron gofal' – estyn mynediad i gefnogaeth therapiwtig trwy dimau/lwybrau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc i'w helpu i aros mewn cartref teuluol.

Astudiaeth Achos: BPRh Caerdydd a'r Fro

Trwy gyllid refeniw ICF, mae Caerdydd a'r Fro wedi sefydlu Canolfan Adnoddau Pobl Ifanc, rhaglen o gymorth dwys ar gyfer pobl ifanc 11-17 sydd mewn perygl o orfod gadael eu hamgylchedd teulu presennol, sy'n gweithio gyda'r teulu cyfan, lle bo hynny'n briodol, i ddatblygu cynllun diogelwch unigol i annog gwelliant yn sefyllfa'r person ifanc a'u perthynas gyda'u teulu, gyda'r nod o osgoi lleoliad mewn gofal i'r graddau mae hynny'n bosib.

Dangosodd enghraifft o achos a rannwyd gyda ni berson ifanc yn arddangos amrywiol ymddygiad risg uchel. Cytunwyd ar gynllun diogelwch teulu oedd yn cynnwys mynediad at therapi celf, a ddisgrifiwyd fel datblygiad gwirioneddol gadarnhaol gan y person ifanc a'i theulu.

Astudiaeth Achos:

BPRh Gorllewin Morgannwg

Gan ddefnyddio cyllid refeniw ICF, mae'r BPRh wedi creu dwy rôl newydd i swyddogion cyswllt CAMHS – wedi'u gwreiddio yn y timau un pwynt cyswllt gofal cymdeithasol yn y ddau awdurdod lleol sydd yn y rhanbarth. Mae'r swyddogion cyswllt, sy'n nyrsys CAMHS profiadol, yn rhoi gwasanaeth ymgynghori a chynghor ar waith gyda iechyd emosiynol plant; digwyddiadau hyfforddi ar amrywiaeth o bynciau fel hunan-niweidio, gorbryder, diffyg hwyliau a phroblemau ymddygiad; ac asesiadau ar y cyd yn ogystal â gwaith uniongyrchol ar y cyd yn y tymor byr i gyflawni'r ymyrraeth fwyaf effeithiol ar gyfer y teulu. Mae'r gwasanaeth hwn wedi llwyddo i brofi ei effeithiolrwydd, gyda gwelliannau i nifer y cleifion ar restrau aros CAMHS yn ystod y tair blynedd nesaf, a'r bwriad yw bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan gyllid craidd CAMHS erbyn 2021/22.

Astudiaeth Achos:

Maison des Adolescents

Yn 2018, bu'r Comisiynydd yn ymweld â 'Maison des Adolescents' yn Ffrainc. Mae'r 'tai hyn i bobl ifanc' yn cynnig ystod eang o wasanaethau mewn un man, ac yn hygyrch i'r gymuned leol ar droed neu ar gludiant cyhoeddus. Mae Maisons des Adolescents ar gael ledled Ffrainc ac yn darparu lleoliad hygyrch i'r rhai sy'n ceisio cymorth oherwydd pryderon iechyd meddwl, emosiynol, neu ymddygiad. Gall pobl ifanc a'u teuluoedd dderbyn cyngor a gwybodaeth ar unwaith. Mae rhai yn cael cynnig mynediad i wasanaethau fel grwpiau cefnogi a threfnir apwyntiad clinigol i'r dyfodol ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf. Yn ogystal â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ymateb cyntaf, mae cyngor a chymorth gwaith cymdeithasol a gwaith ieuencid ar gael yn ôl y galw, yn dibynnu ar yr unigolyn. Gallai lleoliad o'r fath ddarparu dull 'dim drws anghywir' oedd yn ceisio cefnogi pryderon yn gynnar, yn y gobaith o atal rhai plant rhag symud i sefyllfa argyfyngus a allai olygu bod person ifanc yn dechrau derbyn gofal neu bod angen gwasanaethau iechyd meddwl clinigol arno/arni.

Wedi'r ymweliad hwn, ysgrifennodd y Comisiynydd flog ac annog rhanbarthau i ystyried y dull gweithredu hwn mewn digwyddiadau iechyd meddwl cenedlaethol, ac yn ei hymweliadau â phob rhanbarth.

Mae BPRh Caerdydd a'r Fro wedi derbyn arian cyfalaf ICF i ddatblygu canolfan galw heibio yng nghanol Caerdydd, yn dilyn y model hwn. Mae BPRh Gorllewin Morgannwg hefyd wedi sicrhau lleoliad yng nghanol dinas Abertawe a allai ddarparu gwasanaeth di-fwlich. Nid oes llawer o fanylion ar gael am y naill na'r llall eto, ond mae hwn yn fodel y bydden ni'n hoffi ei weld yn cael ei ystyried gan ranbarthau eraill, lle mae hynny'n briodol.

Astudiaeth Achos:

BPRh Gwent

Mae ISCAN (Gwasanaeth Integredig ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol) yn gweithredu fel tri phwynt mynediad unigol ar draws tair ardal yng Ngwent (gogledd, de a gorllewin) ar gyfer atgyfeiriadau i blant a phobl ifanc ag anableddau ac anawsterau datblygiad. Mae tri thîm cydlynw ISCAN wedi'u lleoli yn y tair canolfan i blant.

Derbynnir atgyfeiriadau i blant/bobl ifanc 0-18 oed sy'n arddangos testun pryder mewn dwy elfen neu fwy o'u datblygiad. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n gofyn am asesiad Anhwylderau Sbectwm Awtistig (ASD) / Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwytio (ADHD). Mae angen i'r atgyfeiriad gael ei gwblhau gan weithiwr proffesiynol, a rhaid iddo amlinellu'n glir anawsterau'r plentyn/person ifanc, yn ogystal â chynnwys llofnod yn cadarnhau cysyniad rhiant/gofalwr.

Unwaith bydd ISCAN yn derbyn ffurflen atgyfeirio a gwybodaeth gefnogi berthnasol, caiff y plentyn/person ifanc eu rhoi ar y rhestr i'w trafod yng nghyfarfod panel ISCAN. Mae panel ISCAN yn cynnwys gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys pediatregydd, seiciatrydd ymgynghorol, nyrs arbenigol pediatrig, cynrychiolaeth o'r fîm niwro-ddatblygiadol, gwasanaethau therapi, gwasanaeth seicoleg addysg a thîm plant ag anableddau yr awdurdod lleol. Bydd swyddog cyswllt teulu pob canolfan i blant hefyd yn bresennol. Anfonir adroddiad ar y canlyniad at y rhieni, yn nodi manylion y drafodaeth a'r penderfyniad ynghylch y camau nesaf wrth reoli gofal y plentyn/person ifanc.

Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at y model SPACE-Wellbeing yng Ngwent yn arbennig fel enghraifft o arfer da. Mae sgysiau gyda'r rhai dan sylw wedi amlygu y gall sgysiau gyda rhieni fod yn anodd gan eu bod yn ceisio'u darbwyllo bod ffurf gyflym, amlasiantaeth, ddi-fwlch yn well nag, er enghraifft, eistedd ar restr aros ar gyfer CAMHS neu'r fîm niwroddatblygiadol lleol. Weithiau gall teuluoedd ddisgwyl (yn ddealladwy o ystyried y diffyg opsiynau di-fwlch yn gyffredinol ledled Cymru) y gallai apwyntiad gyda CAMHS neu diagnosis fod yn 'docyn aur' i'r gwasanaeth sydd ei angen. Ac wrth gwrs, weithiau mae hynny'n wir. Nod modelau cymorth cynnar yw darparu gwasanaeth di-fwlch ar gyfer y plant hynny a fyddai fel arall yn aros am sawl wythnos neu fis, yn aml i glywed yn y diwedd nad oes modd eu helpu.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn barnu bod hwn yn fodel addawol iawn, ac maen nhw wedi annog rhanbarthau eraill mewn cyfarfodydd dilynol i ystyried y dull gweithredu hwn.

Ymatebion – Darpariaeth breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth

Mae lleoli plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad preswyl ar wahân i'w teulu neu eu gofaluwr yn benderfyniad pwysig. Fodd bynnag, ar adegau mae'n rhaid mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Ar adegau eraill, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dyw'r ddarpariaeth breswyl gywir ddim yn bodoli. Mynegwyd rhwystredigaeth ynghylch y diffyg darpariaeth hwn gan bob BPRhau a sawl rhanddeiliad. Disgrifiwyd lleoliadau 'tu allan i'r sir' gan sawl bwrdd fel problem fawr nad yw wedi derbyn sylw priodol eto. Disgrifiodd aelod o un Bwrdd ddarpariaeth breswyl ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny oedd ddim yn 'ffitio i'r gwasanaeth' ac yn cael eu lleoli mewn darpariaeth amhriodol fel 'caethiwo, yn hytrach na therapi', gyda'r staff yn 'eu gwarchod yn unig'.

Mae angen i ranbarthau gynnal dadansoddiad o'r holl opsiynau sydd ar gael yn eu rhanbarth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Mae angen dealltwriaeth gynhwysfawr o'r tirlun ar draws y rhanbarth os yw rhanbarthau i fod yn wirioneddol ymwybodol o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, er mwyn medru cynllunio'n briodol sut mae cynnig gwasanaeth integredig i'w plant a'u pobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cam i fyny a cham i lawr ar gyfer y rhai y mae angen darpariaeth breswyl arnyn nhw. Cododd pob bwrdd y diffyg gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i ddarpariaeth breswyl neu sydd newydd ei gadael.

Bydd yr adroddiad hwn yn awr yn amlygu rhai enghreifftiau o ymarfer mewn gwahanol ranbarthau o Gymru, gyda golwg ar fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn neu eu lliniaru:

'...gwarchod yn unig'

Aelod BPRh yn trafod staff yn darpariaeth breswyl anaddas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth

Astudiaeth Achos: BPRh Powys

Mae BPRh Powys wedi gwneud cais am gyllid ar gyfer darpariaeth therapiwtig i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal cymdeithasol preswyl. Mae'r BPRh yn hyderus y byddai darpariaeth o'r fath yn golygu bod y bobl ifanc hynny sy'n 'syrthio i'r bwlch' rhwng lleoliadau preswyl iechyd meddwl a lleoliadau preswyl gofal cymdeithasol yn gallu cyrchu gwasanaeth a fyddai'n diwallu eu hanghenion mewn un lleoliad. Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed mwy am y gwaith hwn, os bydd y cais am arian yn llwyddiannus.

Astudiaeth Achos:

BPRh Gorllewin Morgannwg

Lluniwyd Gwasanaeth Cymorth Lleoliadau Amlasiantaeth Gorllewin Morgannwg (MAPSS) i ddarparu dull therapiwtig amlddisgyblaeth o ddatblygu dealltwriaeth a hyder gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, lleihau ansfydlogrwydd lleoliadau ac addysg; a gwella'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a gofalwyr.

Amcanion MAPSS yw hybu ymlyniad sicr yn fodd i helpu pobl ifanc a'u gofalwyr i gynnal lleoliadau (preswyl ac addysg) er mwyn i bobl ifanc deimlo'n ddigon diogel i ddatblygu ymlyniad/perthnasoedd cefnogol, cyfleoedd i dyfu'n gadarnhaol, a dechrau prosesu trawma datblygiadol. Cyflawnir y nodau hyn trwy helpu gweithwyr proffesiynol fel gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr neu athrawon i sicrhau'r ddealltwriaeth orau o bobl ifanc, eu datblygiad, y trawma y maen nhw wedi'i wynebu a sut gall hynny achosi heriau o ran eu gofal.

Cynigir ymyriadau therapiwtig i bobl ifanc â phrofiad o ofal, gofalwyr, athrawon a ffynonellau cymorth eraill. Gall y bobl ifanc hyn fod mewn lleoliadau maeth, lleoliadau preswyl neu gyda theulu neu ffrindiau. Mae'r ymyriadau wedi'u teilwra ar gyfer amgylchiadau'r plentyn, y gofalwyr a'r sefyllfa addysg. Y nod yw 'cofleidio'r' plentyn trwy ddod â'r holl weithwyr proffesiynol ynghyd o amgylch y plentyn, gan ddefnyddio dull gweithredu a rennir ynghylch ymlyniad ac adfer wedi trawma. Yn ogystal â chefnogaeth uniongyrchol, mae MAPSS yn cyflwyno hyfforddiant i ofalwyr, ysgolion a staff gwasanaethau cymdeithasol.

Fel y soniwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiynydd wedi argymhell yn ei Hadroddiad Blynyddol diweddaraf y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid newydd wedi'i neilltuo ar gyfer BPRhau, yn benodol at ddibenion darpariaeth breswyl iechyd meddwl a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yng Nghymru⁴⁰. Mae rhai o'r Byrddau wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw'n 'barod ac yn fodlon' i weithio gyda Llywodraeth Cymru i roi'r cyfleusterau hyn ar waith. Carwn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r rhanbarthau a chychwyn y broses o greu'r gwasanaethau hyn, a gomisiynir ar y cyd, yn union wedi'r adolygiad cyfredol.

Astudiaeth Achos:

BPRh Gorllewin Cymru

Mae BPRh Gorllewin Cymru wedi bod yn mynd ar ôl y posibilrwydd o sicrhau darpariaeth breswyl newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen gofal preswyl 'cam i lawr' o lety diogel. Mae awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol wedi bod yn gweithio ar y cynnig hwn ar y cyd, a chafwyd hyd i leoliad posibl. Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed mwy am y gwaith hwn.

⁴⁰ Comisiynydd Plant Cymru (2019) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Adroddiad-Blynyddol-2018-19.pdf>

Rydyn ni'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhai camau ynghylch hyn trwy'r grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd yn ddiweddar, ond o ystyried bod hwn yn fater mor gyfarwydd i FPRhau, roedden ni'n synnu nad oedd mwy wedi cymryd camau i gomisiynu cyfleuster o'r fath ar y cyd yn eu rhanbarth.

Astudiaeth Achos: BPRh Gogledd Cymru

Fel rhan o'u cyllid Trawsfurfiant llwyddiannus, mae'r BPRh yn sefydlu 'timau asesu a chymorth' – asesiad preswyl tymor byr gyda thîm amlddisgyblaeth ar y safle i ganfod y lleoliad mwyaf priodol fydd yn diwallu anghenion cymorth pobl ifanc ag anghenion cymhleth, a rhai sy'n profi argyfwng neu ymddygiad cynyddol sy'n destun pryder, a'r canlyniadau a ddymunir ar eu cyfer. Bwriad hyn yw darparu cymorth dwys i feithrin gwydnwch unigolion a theuluoedd a hwyluso dadesgaladu.

Mewn ymateb i ddatganiad sefyllfa marchnad y BPRh ynghylch Gofal Preswyl, Maethu a llety diogel i Blant a Phobl Ifanc, rhan o nod y gwaith hwn yw cynnig darpariaeth cam i fyny pan na fydd modd rheoli ymddygiad gartre bellach; a darpariaeth cam i lawr wrth ryddhau o'r ysbyty. Nod y timau asesu a chymorth fydd dod ag asiantaethau ynghyd i wneud penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth dymor hwy orau y gellir ei chynnig i'r person ifanc tra'u bod yn aros yn y lleoliad preswyl tymor byr.

Case Study: Gwent RPB

Datblygwyd MyST gan Fwrdd Partneriaeth Gwent i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc 5-21 oed sy'n derbyn gofal. Mae MyST yn gweithio gyda phoblogaeth fechan o bobl ifanc a fyddai fel arall yn cael eu lleoli mewn cartrefi preswyl i blant, ysgolion preswyl, unedau diogel ac unedau ysbyty iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio agwedd ddwys i alluogi pobl ifanc sydd ag anghenion seico-gymdeithasol hynod gymhleth i gael gofal ac addysg yn eu cymunedau. Mae gwaith yn digwydd ar draws ecosystem y person ifanc; yn uniongyrchol gyda phobl ifanc, aelodau'r teulu biolegol, gofalwyr maeth, ysgolion a rhwydweithiau proffesiynol. Mae'r timau amlddisgyblaeth ar gael 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn. Ochr yn ochr â defnyddio therapïau seicolegol gyda phobl ifanc a theuluoedd, mae MyST yn canolbwyntio lawn cymaint ar ddod â systemau ynghyd i rannu dealltwriaeth o'r person ifanc, i integreiddio dull gweithredu pawb, i ddatblygu rhwydwaith oedolion cydnerth fydd yn dyfalbarhau mewn cyfnodau anodd ac yn rheoli ymddygiad peryglus ar y cyd. Mae gwaith y gwasanaeth yn golygu bod mwy o bobl ifanc yn gallu tyfu i fyny yn eu cymunedau eu hunain. Mae pobl ifanc yn sôn am welliannau i'w hiechyd meddwl, a bod eu hanghenion yn lleihau. Mae gweithwyr proffesiynol yn sôn am deimlo'n fwy abl a hyderus i weithio gyda'r person ifanc a'u system. Ochr yn ochr â chanlyniadau clinigol y gwasanaeth hwn, cyflawnir arbedion cost trwy ddod â phobl ifanc nôl i'w gwlad o leoliadau drud, a chaiff gwaith amlasiantaeth ei ymarfer a'i wella.

Rhan 4: Dim Drws Anghywir ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu wrth iddyn nhw dyfu i fyny

Mae pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol i gyd yn cytuno bod disgwyl o hyd i bobl ifanc ag anableddau dysgu ffitio i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli, gydag opsiynau cyfyngedig os nad yw hynny'n addas i'w hanghenion.

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Yn llawer rhy aml mae pobl ifanc ag anableddau dysgu yn wynebu gwasanaethau darniog wrth iddyn nhw nesáu at bontio i wasanaethau oedolion, gan y bydd asiantaethau lluosog yn aml yn ymwneud â'u gofal. Mae gofyn bod BPRhau yn datblygu trefniadau pontio integredig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth⁴¹. Dylen nhw fod yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau bod gan bobl ifanc ag anableddau dysgu gynllun gofal sy'n integreiddio'r amrywiol wasanaethau maen nhw'n eu cyrchu ac yn sicrhau bod yr holl wasanaethau unigol hynny'n cynllunio gyda'r gwasanaethau oedolion i sicrhau nad yw pobl ifanc yn colli cyfle i gael gwasanaethau y mae ganddyn nhw hawl iddynt, ac nad ydynt yn cael eu gadael heb wasanaethau wrth symud o wasanaethau plant i rai oedolion.

Yn 2018, cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ar brofiadau pobl ifanc ag anableddau dysgu a sut maen nhw'n pontio i wasanaethau oedolion, o dan y teitl *Paid dal yn ôl*⁴². Roedd y negeseuon allweddol o'n hymgyngghoriad â 99 o bobl ifanc ag anableddau dysgu, 187 o rieni a gofalmwyr, a 43 o weithwyr proffesiynol, yn cynnwys:

- Ymddengys bod cyfranogiad pobl ifanc yn y gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch eu hanghenion yn isel iawn
- Mae rhieni'n aml yn teimlo eu bod yn cael eu llethu ac yn pryderu am y dyfodol
- Mae rhai pobl ifanc yn wynebu newid sylweddol yn y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn ar ôl cyrraedd 18 oed, oherwydd gwahanol drothwyon
- Mae gan bob gwasanaeth ffyrdd gwahanol o drosglwyddo i wasanaethau ôl-18. Mae meddu ar weithiwr allweddol neu wasanaeth pontio yn werthfawr dros ben
- Mae pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol i gyd yn cytuno bod disgwyl o hyd i bobl ifanc ag anableddau dysgu ffitio i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli, gydag opsiynau cyfyngedig os nad yw hynny'n addas i'w hanghenion.

⁴¹ Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/rhan-9-canllawiau-statudol-trefniadau-partneriaeth.pdf>

⁴² Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Paid dal yn ôl – Pontio i Oedolaeth ar gyfer Pobl Ifanc ag Anableddau Dysgu*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Peidiwch-â-dal-nôl.pdf>

Roedd argymhelliad penodol yn adroddiad *Paid dal yn ôl*, sef:

Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwneud cynnydd sylweddol ac effeithiol ynghylch integreiddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gwasanaethau pontio fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth).

Mae sawl darn arall o waith wedi cefnogi canfyddiadau adroddiad *Paid Dal yn ôl*. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei *Rhaglen Gwella Bywydau*⁴³ ym mis Mehefin 2018, gan amlygu y gall plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu ddioddef hefyd o gyflyrau iechyd corff a meddwl, gan arwain at ddryswch ynghylch pa dîm iechyd ddylai fod yn cefnogi'r plentyn. Yn y cyswllt hwnnw, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru adolygiad thematig yn 2019⁴⁴ oedd yn amlygu profiadau gwahanol o ran cydlyniant gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd cymhleth wrth iddyn nhw bontio o wasanaethau plant i oedolion.

Fel mae rhanddeiliaid wedi'i awgrymu i ni, dylai fod dull rhanbarthol o ymdrin â phontio i wasanaethau oedolion, ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cymorth. Fodd bynnag, welson ni ddim digon o dystiolaeth bod newid digonol ar draws y rhanbarth yn digwydd mewn unrhyw un o'r rhanbarthau. Dywedodd un bwrdd wrthyn ni 'nad oes atebion clir eto' i'r rhwystrau i reoli pontio amlasiantaeth i wasanaethau oedolion yn hwylus. Rwy'n pryderu nad oes mwy yn cael ei wneud ar lefel BPRh i roi sylw i'r mater hwn, er gwaethaf y ffaith bod sawl bwrdd wedi amlygu'r adroddiad *Paid dal yn ôl*, a'r *Rhaglen Gwella Bywydau*.

Cael hyd i ffordd drwy'r ddrysfâ

Roedd y BPRhau a'r rhanddeiliaid yn adlewyrchu llawer o'r hyn welson ni yn ein hadroddiad *Paid dal yn ôl*. Fe ddwedson nhw wrthyn ni fod pobl ifanc sy'n pontio i wasanaethau oedolion yn wynebu drysfâ gymhleth o wahanol drefniadau ar draws rhanbarthau. Dywedwyd wrthyn ni fod llwybrau pontio lluosog ar draws gwasanaethau, a rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Dywedwyd wrthyn ni fod gan wahanol awdurdodau lleol wahanol strwythurau ar gyfer trafod pecynnau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd, a bod gan wahanol awdurdodau lleol oddi mewn i ranbarthau feini prawf cymhwyster gwahanol ar gyfer gwasanaethau plant anabl.

Mewn perthynas â gofal am blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn fwy cyffredinol, dywedwyd wrthyn ni fod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn defnyddio dulliau gwahanol ar gyfer ymddygiad heriol, sy'n golygu bod teuluoedd yn cael eu drysu. Mae hyn yn amlygu unwaith yn rhagor yr angen am iaith a rennir i drafod beth rydyn ni'n ei olygu wrth blant ag anghenion cymhleth, a'n hymatebion i'r anghenion hynny.

⁴³ Llywodraeth Cymru (2018) *Rhaglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/anabledd-dysgu-rhaglen-gwella-bywydau-mehefin-2018.pdf>

⁴⁴ Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (2019) *Adroddiad Thematig – Sut mae Gwasanaethau Gofal Iechyd yn Diwallu Anghenion Pobl Ifanc?* Ar gael yn: <https://agic.org.uk/sites/default/files/2019-06/290319thematicyouthcy.pdf>

Adnoddau a Rhannu Gwybodaeth

Bu'r BPRhau yn rhannu gyda ni rai sefyllfaoedd y maen nhw'n barnu sy'n rhwystro proses bontio integredig. Dywedodd un BPRh wrthyn ni eu bod yn methu rhoi gweithio allweddol ar waith yn effeithiol, gan na chafwyd cytundeb i rannu gwybodaeth rhwng timau gwasanaeth anabledd iechyd a gofal cymdeithasol trwy System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Rhannodd byrddau eu rhwystredigaeth hefyd nad oes modd trosglwyddo Datganiadau o Angen Addysgol Arbennig rhwng awdurdodau lleol. Gall hynny olygu, os bydd gwasanaeth person ifanc yn newid i gael ei ddarparu mewn ardal awdurdod lleol arall, na fydd eu Datganiad yn eu dilyn. Dyma'r math o rwystrau sy'n atal gwaith y BPRhau i integreiddio gwasanaethau, a dylai fod modd eu goresgyn.

Mynediad a darpariaeth

Dywedodd byrddau a rhanddeiliaid wrthyn ni fod mynediad at wasanaethau a'u darparu hefyd yn broblem fawr. Disgrifiodd rhai y diffyg cyfleusterau penodol ar gyfer pobl ifanc, gan nad oes darpariaeth deg o wasanaethau ieuencid ar gael ledled Cymru, er enghraifft. Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn arbennig o wir yn achos pobl ifanc 18-25 oed ag anableddau. Dywedodd un o'r rhanbarthau wrthyn ni hefyd, er bod gwasanaethau anabledd dysgu i blant yn cael eu darparu'n 'fewnol', bod gwasanaethau anabledd dysgu oedolion yn cael eu darparu gan fwrdd iechyd arall mewn rhan arall o Gymru, nad yw hyd yn oed yn ffinio ag ardal eu bwrdd iechyd nhw. Rydyn ni'n deall y bydd gwasanaethau anabledd dysgu oedolion yn dod yn ôl o dan reolaeth y bwrdd iechyd hwnnw'n fuan, ond bod y sefyllfa hon wedi arwain at anawsterau o ran cyrchu cynlluniau llwybr y bwrdd iechyd arall, fel bod teuluoedd heb wybodaeth lawn, ac o bosib oedi diangen. Dywedodd byrddau a rhanddeiliaid wrthyn ni hefyd fod comisiynu ymyriadau therapiwtig arbenigol yn gallu bod yn broblem os nad yw'r plant a'r bobl ifanc ag anabledd dysgu yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Gofal Parhaus.

Dylai BPRhau fod mewn sefyllfa ddelfrydol i frocera trefniadau rhwng gwasanaethau plant ac oedolion i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Er bod y rhwystrau hyn yn amlwg yn anodd, dylai BPRhau fod mewn sefyllfa ddelfrydol i frocera trefniadau rhwng gwasanaethau plant ac oedolion i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, ond hefyd ar gyfer gwasanaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan eu bod yn y sefyllfa unigryw o fedru gweithredu'n rhanbarthol. Fe wnaethon ni nodi rhai arwyddion cynnar bod hyn yn dechrau derbyn sylw mewn rhai rhanbarthau. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn enghreifftiau o rai dulliau rhanbarthol o ymdrin â'r mater hwn:

Case Study:

BPRh Caerdydd a'r Fro

Mae'r rhanbarth yn datblygu protocol rhanbarthol ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu. Bydd y protocol yn cynnwys angen am nodi gweithwyr pontio allweddol, a Thîm Pontio penodol. Bydd rôl 'cynllunydd cymorth' a fydd yn nodi plant yn gynharach er mwyn darparu cymorth cynllunio ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion. Mae'r BPRh hefyd yn gweithio i wella'r wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd fel bod ganddyn nhw syniad gwell o'r hyn i'w ddisgwyl o'r broses bontio. Defnyddiwyd cyllid ICF i gynyddu capasiti yn y gweithlu i gefnogi'r gwaith hwn. Bydd gweithredu'r gwaith hwn dan ofal Partneriaeth Dyfodol Anabledd, a fydd yn cwmpasu plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac oedolion ag anableddau dysgu, fel bod y gwasanaethau hynny'n cael eu cydlynw'n well ar draws oed pontio rhwng gwasanaethau.

nhw'n myfyrio ar ymatebion i ganfyddiadau *Paid dal yn ôl*, *Gwella Bywydau*, ac adolygiad thematig Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd cilfachau o arfer da mewn awdurdodau lleol yn sawl un o'r rhanbarthau, ond ni welwyd fawr ddim tystiolaeth bod digon o uchelgais yn y rhanbarthau i ddarparu gwasanaeth teg ar draws eu rhanbarth oedd yn ymdrin â'r pryderon a amlinellwyd yn adroddiad *Paid dal yn ôl*.

At ei gilydd, rydyn ni'n dal i bryderu nad yw'r grŵp yma o bobl ifanc wedi gweld gwelliannau i'w profiad pontio ledled Cymru, a heblaw am yr astudiaethau achos uchod, does dim digon o dystiolaeth bod rhanbarthau'n arwain ar y mater hwn.

Astudiaeth Achos:

BPRh Powys

Yn ddiweddar mae BPRh Powys wedi sicrhau cyllid ICF ar gyfer prosiect 2-flynedd sy'n edrych ar bontio i wasanaethau oedolion ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Grŵp Llywio'r Bartneriaeth Bontio. Nod y prosiect yw datblygu llwybr integredig ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r rhai sy'n profi anabledd, problemau iechyd meddwl, Cyflyrau Sbectwm Awtistig, sefyllfa fregus, a gadael gofal.

Mae gan Bowys hefyd Wasanaeth Anabledd Integredig sy'n cynnal cyfarfodydd triage wythnosol i ystyried atgyfeiriadau a hwyluso rhannu gwybodaeth, cynllunio cyfarfodydd amlasiantaeth, cyfeirio pobl at wasanaethau ac unrhyw atgyfeiriadau ymlaen.

Mae'r enghreifftiau hyn i'w croesawu, ond dydyn ni ddim wedi gweld enghreifftiau o newid gwirioneddol ar lawr gwlad, er bod sawl Bwrdd wedi dweud wrthyn ni eu bod

Rhan 5: Rhai Heriau Pellach i FPRhau

Sut mae BPRhau yn gweld eu rôl?

Mae angen i'r BPRhau fod yn gwneud peth o'r gwneud

Aelod BPRh

Roedd pob un o'r byrddau'n gweld gwerth partneriaethau strategol rhanbarthol. Gwnaeth rhai y sylw bod gweithio mewn partneriaeth yn golygu bod gwasanaethau yn wir yn gallu perchnogi'r problemau mae eu poblogaethau'n eu hwynebu. Cafwyd sylwadau hefyd bod y partneriaethau hyn yn darparu fforwm i fedru cymryd cam yn ôl a chanolbwyntio ar welliannau i wasanaethau ataliol, bod hynny'n gallu osgoi dyblygu gwaith, ac y dylai arwain at berthynas waith well rhwng gwasanaethau oherwydd eu bod yn cael eu cyfuno gan egwyddorion sylfaenol allweddol. Dywedodd rhai aelodau o FPRhau wrthyn ni fod iechyd a gofal cymdeithasol yn gwella'u gallu i 'godi'r ffôn ar ei gilydd', a bod sgysiau wedi newid o 'beth galla i neu ardal fy awdurdod lleol ei wneud' i 'beth gallwn ni wneud ar y cyd'.

Roedd BPRhau yn awyddus i ddweud wrthyn ni eu bod nhw'n 'gyfuniad' o sefydliadau, yn hytrach na chorff sy'n cyflawni. Adlewyrchwyd hynny mewn rhai sylwadau gan y BPRhau, er enghraifft "nid cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yw BPRhau; does ganddyn nhw ddim awdurdod dirprwyedig na phwerau"; maen nhw'n "fecanwaith yn hytrach na sefydliad". Cafwyd awgrym hefyd gan un aelod o FPRh bod Llywodraeth Cymru "ddim wir yn siŵr beth sydd ganddyn nhw yn y BPRhau", a'u bod yn eu gweld fel endidau sefydlog, yn hytrach na chfuniad o asiantaethau, er nad yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn eu trefniadau cyllido a llywodraethu/strwythurol.

Fodd bynnag, fel y nododd un rhanddeiliad, "dyw hi ddim yn ddyddiau cynnar bellach" ac os nad yw pethau'n gweithio "mae angen i'r BPRhau fod yn gwneud peth o'r gwneud". Bydden ni'n rhannu'r safbwynt yna. Er nad yw BPRhau yn gyrff cyflwyno gwasanaeth uniongyrchol yn yr un ffordd â byrddau iechyd neu awdurdodau lleol, rydyn ni'n credu ei fod yn rhan hanfodol o'u rôl i ymyrryd i'r graddau y gallant os nad yw gwasanaethau'n integreiddio. Mae ganddyn nhw bŵer i wneud hynny trwy'r cyllid a gyfunwyd a'r trefniadau comisiynu ar y cyd, er enghraifft.

Trawsffurfio ac estyn cwmpas arfer da

Lluniwyd Cyllid Trawsffurfio Llywodraeth Cymru yn benodol i annog y broses o estyn cwmpas arfer da ar draws y rhanbarthau. Ni chafwyd llawer o enghreifftiau lle roedd estyn cwmpas arfer da 'o'r lefel leol i'r rhanbarthol a'r cenedlaethol, ac allan i dimau a sefydliadau eraill', fel y rhagwelwyd yn *Cymru Iachach*⁴⁵, wedi digwydd neu yn digwydd. Er bod y cyllid yn sicr i'w groesawu ac wedi cael ei fuddsoddi mewn sawl prosiect cyffrous, dim ond un BPRh ddywedodd yn benodol wrthyn ni fod Cyllid Trawsffurfio wedi bod yn gatalydd ar gyfer estyn cwmpas gwasanaeth. Mae'r uchelgais yn briodol, ac yn sicr gwelwyd symudiadau i'r cyfeiriad cywir, ond bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut maen nhw'n creu newid gwirioneddol drawsffurfiannol, gan nad ymddengys bod darparu cyllid cychwynnol tymor byr wedi bod yn ddigon.

⁴⁵ Llywodraeth Cymru (2018) *Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol?_ga=2.135771121.1594850195.1582547077-1816203892.1574936687

Rydym ni'n sicr yn credu bod potensial gan rai o'r enghreifftiau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn i ddod yn arfer a wreiddiwyd y tu hwnt i'r rhanbarth unigol lle bu'r treialu.

Ydy'r holl bartneriaid mewn sefyllfa gyfartal?

[Mae gennym ni] fforwm trydydd sector da iawn sy'n rhoi cyfle i sefydliadau fwydo i mewn i flaenoriaethau cyffredinol y bwrdd a chyfrannu atynt

Oherwydd bod olion traed daearyddol y BPRhau yn cyfateb i ardaloedd y byrddau iechyd, rhannodd rhai aelodau o FPRhau bryder y gall peth o waith y bwrdd deimlo fel petai'n cael ei arwain gan iechyd i raddau helaeth, yn hytrach na bod yn wirioneddol integredig. Gall hyn gael ei waethygu os bydd cyllid rhanbarthol yn cael ei ddosbarthu trwy'r bwrdd iechyd, yn hytrach na bod ym meddiant y BPRh ei hun. Mynegwyd y farn hon gan sawl aelod o FPRh.

Cynrychiolydd o'r trydydd sector un BPRh

Dywedodd rhai byrddau wrthyn ni fod dod â gwahanol ardaloedd ynghyd o fewn y rhanbarth yn gallu achosi tensiynau. Mewn un

BPRh, er enghraifft, clywsom am densiynau ynghylch o ba ardal awdurdod lleol oddi mewn i'r rhanbarth y dylai Cadeirydd y Bwrdd ddod, a thensiynau rhwng y gwahanol awdurdodau lleol ynghylch cyllido, adnoddau a chapasiti.

Codwyd pryderon gyda ni ynghylch cynnwys partneriaid trydydd sector yng ngwaith y BPRhau, fel yr amlygwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru⁴⁶, ac adlewyrchwyd hynny yn ymatebion y trydydd sector i'r prosiect hwn. Teimlad yr ymatebwyr o'r trydydd sector oedd mai'r cyrff statudol oedd â'r pŵer yn y Bwrdd. Mynegodd rhai cynrychiolwyr o'r trydydd sector rwystredigaeth ynghylch teimlo eu bod yn mynychu'r bwrdd er mwyn 'cadarnhau' penderfyniadau a wnaed eisoes gan y partneriaid statudol. Mae problem hefyd yn yr ystyr nad yw aelodau trydydd sector yn cael tâl am fynychu'r Byrddau, ac felly nad oes cymhelliad digonol i fynychu o bosib.

Serch hynny, roedd rhai BPRhau yn awyddus i bwysleisio eu bod yn cynnwys ac yn gwerthfawrogi eu partneriaid trydydd sector, gydag un aelod o FPRh yn dweud wrthyn ni "bod rhai pethau mae gwasanaethau statudol yn eu gwneud yn dda iawn, ond maen nhw'n ddychrynlyd o wael am wneud eraill". Roedd gan y BPRh dan sylw ymrwymiad penodol yn ei gynllun gwaith i weithio'n uniongyrchol gyda phartneriaid trydydd sector. Dywedodd un rhanddeiliad o'r trydydd sector wrthyn ni fod gan un rhanbarth 'fforwm trydydd sector da iawn sy'n rhoi cyfle i sefydliadau fwydo i mewn i flaenoriaethau cyffredinol y bwrdd a chyfrannu atynt'.

Rhannodd rhai rhanddeiliaid bryderon bod BPRhau ddim yn clywed gan amrywiaeth digon eang o leisiau. Dywedodd un elusen wrthyn ni, er bod eu grŵp cleientiaid yn gymharol gyfyng, eu bod nhw'n credu y gallen nhw ddarparu cipolwg arbenigol ar brofiadau a gwasanaethau plant ag anghenion cymhleth.

⁴⁶ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2017) *Delivering Transformation in Wales: Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 Interim findings*. Ar gael yn:

https://wiserd.ac.uk/sites/default/files/documents/eng_sswba_briefingpaper_wcc_final_27.11.17_1.pdf

Roedd yr elusen hon yn credu bod mewnwelediad pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn gallu helpu i 'dorri trwy' sefyllfaoedd sy'n rhy gymhleth, ac fe fynegon nhw siom nad oedd unrhyw FPRhau wedi troi atynt.

Ar adeg ysgrifennu, mae un o'r saith BPRh dan gadeiryddiaeth cynrychiolydd o'r trydydd sector. Mae'r holl FPRhau eraill dan gadeiryddiaeth aelod cabinet yr awdurdod lleol neu aelod uwch o'r Bwrdd Iechyd.

Rhannu Gwybodaeth

Amlygwyd y mater hwn ar hyd yr adroddiad – mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau perthnasol yn dal yn frwydr ar draws rhanbarthau. Dywedodd un bwrdd wrthyn ni fod teuluoedd wedi dweud wrthyn nhw, yn eu hymarferiad ymgysylltu â dinasyddion yn ddiweddar, eu bod am weld gwasanaethau'n cydweithio'n agosach, ac fe wnaethon nhw godi'n benodol eu bod am weld gwybodaeth yn cael ei rhannu'n well ac yn fwy effeithlon. Mae gwneud hynny'n iawn yn hanfodol os ydym am weld y dull 'dim drws anghywir' yr ydym yn galw amdano.

Mae'r system TG integredig ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (WCCIS) i'w chroesawu, ac roedd y byrddau'n gallu dangos gweithgarwch o ran weithredu'r system TG integredig hon. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys gwasanaethau eraill fel addysg. Dywedodd aelodau BPRhau wrthyn ni am eu rhwystredigaeth oherwydd eu bod yn methu rhannu data rhwng gwasanaethau. Dywedson nhw fod enghreifftiau lle nad yw gwasanaethau'n gwybod eu bod yn ymwneud â'r un teulu ag asiantaeth arall. Yn wir, mewn un panel amlldisgyblaeth lle buon ni'n arsylwi, doedd pawb yn y stafell ddim yn gallu gweld manylion yr atgyfeiriadau oedd yn cael eu trafod, gan nad oedd yr holl bartneriaid yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth hon trwy eu hasiantaeth.

Tryloywder, hygyrchedd ac atebolrwydd gwaith y Bwrdd

Sut gallwn ni fod yn atebol os dyw pobl ddim yn gwybod ein bod ni'n bodoli na beth rydyn ni'n ei wneud

Aelod BPRh

Sut gallwn ni dod o hyd i'r gwasanaethau rydyn ni angen, neu ffeindio mas beth ydy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gwneud yn dda?

Aelod GRhIC

Rhaid i FPRhau wella'u tryloywder. Adlewyrchwyd hyn gan sawl rhanddeiliad y buon ni'n siarad â nhw. Ar lefel sylfaenol, dyw cael mynediad at gofnodion cyfarfodydd neu adroddiadau blynyddol ddim yn hawdd, na chwaith unrhyw wybodaeth er mwyn i'r rhai y tu allan i'r byrddau ddeall systemau gwaith y BPRhau a sut mae cael mynediad iddyn nhw. Dylai'r rhain fod ar gael yn glir ar-lein, ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Nad yw gwefan un o'r BPRhau wedi cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd ers 2018, er enghraifft.

Ar ben hynny, bydden ni hefyd yn hoffi gweld ymrwymiad gan bob bwrdd i greu fersiynau hygyrch o'u holl brif ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau blynyddol. Bydden ni'n hoffi gweld y BPRhau yn nodi manylion mentrau a luniwyd i fod o fudd i blant a phobl ifanc, a sut byddan nhw'n esbonio'r gwaith yma mewn iaith sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc.

Newid diwylliant a gonestrwydd gyda theuluoedd

Fe glywsom ni gan aelod o fwrdd eu bod yn teimlo bod meddylfryd o 'amddiffyn arbenigwyr rhag galw mawr' trwy wneud prosesau atgyfeirio yn gymhleth ac yn anodd, a pheidio â rhannu systemau a gwybodaeth yn ddiffwdan. Mae'n ddealladwy pam y bydden ni'n reddfodol am amddiffyn arbenigwyr rhag galw mawr, ond mae angen i ni wneud hynny mewn ffordd agored, gonest, sy'n cydnabod nad ymyriadau iechyd meddwl arbenigol yw'r ateb bob amser, ac yn rheoli disgwyliadau teuluoedd. Ni all y newid diwylliant hwn gychwyn nes bod gennym ni fwy o dryloywder gan ein gwasanaethau cyhoeddus. Yn wir, dywedodd cynrychiolwyr gwasanaethau unigol ar fyrddau wrthyn ni fod problemau'n codi hefyd o ran disgwyliadau gwasanaethau eraill ynghylch eu gwasanaeth nhw (a phawb ohonynt yn eistedd o amgylch bwrdd y BPRh). Mae gan FPRhau ran allweddol i'w chwarae wrth hwyluso sgysiaid agored, gonest rhwng gwasanaethau, a gyda'r dinasyddion maen nhw'n eu gwasanaethu. Dylai integreiddio llwybrau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth fod yn uchelgais iddynt, ac ymateb i anghenion y plentyn neu'r person ifanc, nid y diagnosis yn unig.

Dylai teuluoedd fedru cyrchu gwybodaeth am lwybrau gofal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn hwylus os yw'r rheiny ar waith yn eu rhanbarth. Byddai hynny nid yn unig yn helpu i hysbysu teuluoedd yn fwy cyffredinol, byddai hefyd yn golygu bod ganddyn nhw well dealltwriaeth o sut dylai gofal integredig gael ei lunio o amgylch y plentyn neu'r person ifanc, a'u teulu, yn hytrach na gweld apwyntiad CAMHS neu ddiagnosis o reidrwydd fel 'tocyn aur' i gael y cymorth angenrheidiol. Disgrifiodd gweithiwr proffesiynol oedd yn rhan o fodel panel cymorth cynnar yr her o ddarbwylluo teuluoedd y byddai'r ymateb integredig yn fwy llesol iddyn nhw nag ymuno â rhestr aros ar gyfer apwyntiad CAMHS. Bydd cyflawni'r newid diwylliant hwn yn anodd, ond mae'n angenrheidiol os yw gwasanaethau integredig i lwyddo. Mae BPRhau mewn sefyllfa unigryw i fedru gyrru'r newid hwn yn ein persbectif ar ein gwasanaethau iechyd a gofal.

Perthnasoedd â phartneriaethau strategol eraill

Mae mater y gorgyffwrdd rhwng blaenoriaethau ac amcanion, ac eglurder ynghylch ffiniau llywodraethiant rhwng partneriaethau strategol hefyd wedi cael ei godi, yn arbennig mewn perthynas â materion plant, a mentrau ataliol a chymorth cynnar sy'n ceisio gwella llesiant. O bersbectif gwasanaethau plant a phobl ifanc, mae hyn yn arbennig o berthnasol i rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)⁴⁷.

Mae aelodaeth pob Bwrdd yn bwysig yma oherwydd, er bod llunwyr penderfyniadau uwch ar y BPRhau, mae Prif Weithredwyr yn aml yn mynd i'r BGCau, ac mae rhai wedi awgrymu bod Prif Weithredwyr o bosib

⁴⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

mewn sefyllfa well i 'ymrwymo' i rywbeth 'yn y fan a'r lle', tra gallai fod yn anodd i Gyfarwyddwr, er enghraifft, wneud hynny wrth fynychu'r BPRh.

Cafwyd ymateb cymysg i'r awgrym o ddryswch ynghylch llywodraethiant a rolau'r gwahanol Fyrddau pan ysgrifennodd y Comisiynydd at bob BGC a BPRh mewn llythyr ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn 2019. Fodd bynnag, mae'n eglur bod pryderon oedd yn cynnwys bod sawl aelod o bob bwrdd yn mynychu cyfarfodydd y ddau, a bod posibilrwydd o ddyblygu darnau o waith. Codwyd rhai o'r pryderon hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd⁴⁸. Mae mater cyllido wedi'i godi gyda ni hefyd, gan fod y cronfeydd ariannol mwyaf yn cael eu dosbarthu trwy'r BPRhau, nid y BGCau. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, mae'n debygol y gellir rhannu blaenoriaethau ar brydiau, ac rydyn ni'n gweld hynny fel cymhelliad pellach ar gyfer cydweithio'n agosach rhwng y byrddau pan fo hynny'n briodol.

Rydym wedi cael clywed am FPRhau a BGCau yn cydweithio mewn modd cynhyrchiol, er enghraifft datblygu cynigion ar y cyd i'r Grant Ataliaeth a Blynnyddoedd Cynnar, lle mae'r blaenoriaethau'n cydweddu â'i gilydd. Lle mae amcanion yn cael eu rhannu rhwng y Byrddau, mae'n bwysig bod y berthynas rhwng y ddau gorff yn cael ei ddatblygu'n ddigonol naill ai fel bod ymateb ar y cyd yn cael ei symud ymlaen, neu pan fydd un mewn sefyllfa well na'r llall i symud y gwaith yma ymlaen (er enghraifft trwy fynediad y BPRh at gyllid trawsffurfio), bydd y cyrff yn cydweithio i gefnogi'r gwaith hwnnw, ac yn cyflwyno disgwyliadau clir o ran gweithrediad y berthynas honno.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn adolygu'r trefniadau partneriaeth strategol yng Nghymru, sy'n cynnwys BPRhau, yn ogystal â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau)⁴⁹, partneriaethau diogelu ac eraill. Rydym yn disgwyl casgliadau ac argymhellion y broses honno.

Dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant emosiynol

Hefyd bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch y berthynas rhwng y BPRhau a'r Consortia Addysg Rhanbarthol o ran cydlynid ac atebolrwydd canllawiau fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Yn ein barn ni, er bod arwyddion calonogol, mae BPRhau gryn bellter o fod mewn sefyllfa lle mae dull system gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc yn 'gyflwr arferol pethau'. Serch hynny, rydyn ni'n credu mai'r cam mwyaf synhwyrol fyddai mai'r BPRhau sydd â throsolwg o'r dull gweithredu ysgol gyfan, yn y pen draw, gan nad yw Consortia Rhanbarthol yn rhannu eu hól troed daearyddol. Mae'r dull gweithredu ysgol gyfan yn elfen allweddol o'r dull system gyfan 'dim drws anghywir' y mae'r Comisiynydd yn galw amdano, a dylai gydweddu gymaint â phosibl â'r gwaith sy'n digwydd ar lefel ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

⁴⁸ Swyddfa Archwilio Cymru (2019) *Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*. Ar gael yn:

<https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/adolygiad-o-fyrddau-gwasanaethau-cyhoeddus-cymraeg.pdf>

⁴⁹ Sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/29/enacted>

Diwedd glo – A yw BPRhau wedi trawsffurfio integreiddio gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth?

Dyw bod yn dda am arloesi ddim bob amser yn creu trawsffurfio. Mae'n rhaid i'r system newid

Aelod BPRh

Gwelir Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel elfen allweddol o strategaeth 10-mllynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru iachach. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi symiau mawr o arian, a chysylltu cymhellion ariannol ag estyn cwrdd arfer da i drawsffurfio rhanbarthau cyfan. Rhagwelir y bydd hyn yn ei dro yn arwain at drawsffurfio gwasanaethau ar draws y system.

Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar brofiadau plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth mewn perthynas â llesiant emosiynol a iechyd meddwl, a phontio i wasanaethau oedolion ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu. Rydyn ni'n falch o weld cynnydd yn y trefniadau llywodraethu penodol sy'n cael eu rhoi ar waith i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc, ond mae'r rhain ar gamau cynnar iawn mewn rhai rhanbarthau, ac nid oes fawr ddim wedi newid i blant a phobl ifanc ar lawr gwlad yn yr ardaloedd hynny. Er bod rhai enghreifftiau arbennig o galonogol mewn perthynas â chefnogi plant ag anghenion cymhleth gyda'u hanghenion llesiant emosiynol a iechyd meddwl, nid yw'r rhain wedi symud ymlaen gymaint ag y byddem ni'n disgwyl (ac eithrio'r trefniadau yn rhanbarth Gwent), na chwaith y cynlluniau ar gyfer plant ag anableddau dysgu, yn arbennig yng nghyswllt pontio.

Mae mwyafrif y BPRhau yn meddwl yn rhanbarthol, ac rydym ni'n credu eu bod yn ymroddedig i ddysgu o'u harfer da eu hunain ac arfer da o ranbarthau eraill. Fodd bynnag, fe ddaethon ni ar draws sawl enghraifft o FPRhau a fyddai'n rhoi enghraifft o arfer da roedden nhw wedi'i weld mewn un awdurdod lleol, ond lle nad oedd tystiolaeth o gynnig am arian, na gwneud gwaith, i estyn cwrdd arfer da hwnnw ar draws y rhanbarth.

Fel y dywedodd aelod o un BPRh wrthyn ni, "Dyw bod yn dda am arloesi ddim bob amser yn creu trawsffurfio. Mae'n rhaid i'r system newid".

Mae rhai o'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn wedi derbyn sylw gan gamau diweddar iawn a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i'n galwadau am newid. Fodd bynnag, er bod newidiadau diweddar Llywodraeth Cymru i ganllawiau statudol Rhan 9 a'r canllawiau ICF i'w croesawu'n fawr, bydd angen mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn yn iawn. Mae llawer yn symud o fod heb ffocws o gwbl ar blant a phobl ifanc i neilltuo rhan sylweddol o'u cynllun gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc, mewn mwyafrif o'r rhanbarthau. Mae hyn yn welliant i'r sefyllfa flaenorol sydd i'w groesawu, ond mae'n amlwg y bydd y broses hon yn cymryd amser, a bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol yn cefnogi BPRhau o ran materion strategol a llywodraethiant, ac yn bwysig o ran cyllid

cynaliadwy tymor hir sy'n rhoi cyfle i FPRhau brofi gwerth eu modelau integreiddio arloesol a'u huwchraddio i greu newid trawsffurfiannol ar draws eu rhanbarth.

Wrth gwrs, mae cyd-destun yr argyfwng presennol yn codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd y cyllid sydd ar gael i FPRhau ar gyfer yr agenda hon, yn ogystal â gallu'r BPRhau i ganolbwyntio adnoddau ar yr agenda hon yn y cyfnod anodd hwn.

Serch hynny, rôl statudol BPRhau yw ymateb i'w hasesiad poblogaeth a rhoi cynlluniau ar waith i ddiwallu anghenion iechyd, llesiant, gofal a chefnogaeth eu poblogaethau, ac mae'n rhaid i ni adeiladu ar y cynnydd a wnaed ganddynt eisoes, a defnyddio'r gorff pwysig, statudol, amlasiantaeth hwn i yrru hyn yn ei flaen a chynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Argymhellion

Byddaf yn cwrdd â'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 i ddilyn ymlaen o'r darn yma o waith, ac yn benodol i wirio cynnydd yn erbyn yr argymhellion canlynol. Byddaf yn gwahodd â phobl ifanc i ymuno gyda fi ar gyfer pob cyfarfod fel bod ganddyn nhw'r cyfle i graffu ar welliannau pob Bwrdd

Adduned gan y Comisiynydd Plant, Sally Holland

Cyllid cynaliadwy a chefnogaeth i drawsffurfio

Er rydw i wedi gweld enghreifftiau o arfer da, ni wireddwyd eto yr effaith a fwriadwyd mewn perthynas â gwasanaethau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Yng ngoleuni'r newidiadau i'r trefniadau ariannu ar gyfer BPRhau yn sgîl argyfwng Covid-19, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut bydd BPRhau yn cael eu cefnogi'n ariannol i uwchraddio cilfachau o arfer da sydd eisoes yn bodoli yn eu rhanbarth, neu i ddysgu o arfer rhanbarthau eraill.

Defnyddiwyd cyllid ICF a neilltuwyd i gefnogi rhai prosiectau trawsnewid eisoes, ac mae angen ystyried *Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru* sicrhau nad ydym yn colli'r momentwm hwn a chefnogi BPRhau i roi sylw i'r bylchau amlwg a nodwyd yn y ddarpariaeth ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed. Mae'r bylchau hyn yn sicr o waethygu yn sgîl newidiadau parhaus i sut mae gwasanaethau'n gweithredu, felly mae angen cael hyd i ffyrdd newydd o weithio, gan na fydd anghenion y plant hyn yn diflannu dim ond oherwydd trefniadau cyfyngiadau symud Covid-19.

RGalwaf felly ar Lywodraeth Cymru i edrych eto ar sut gall cymhellion ariannol gael eu defnyddio i gefnogi BPRhau i uwchraddio cilfachau o arfer da yn eu rhanbarthau. Mae'r Gronfa Trawsffurfio ac ICF fel ei gilydd yn amlwg wedi cymell BPRhau i feddwl am ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, yn arbennig y cyllid ICF sydd wedi'i neilltuo. Ni allwn golli'r momentwm hwn. Ond fydd dim modd ei gynnal â chyllid craidd yn unig, yn dilyn arian cychwynnol. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau trawsffurfio pan fydd y rheiny'n gallu dangos eu bod yn rhoi sylw i fwch clir yn y ddarpariaeth integredig ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed.

Er bod sicrhau cyllid gwirioneddol gynaliadwy yn anodd yng nghyswllt seneddau cyfnod penodol, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i estyn cylch oes cyllid lle gwelwyd bod arfer da, a gallu i uwchraddio ar draws y rhanbarth.

Ymgysylltu a chynhyrchu ar y cyd â phlant a phobl ifanc

Yn ogystal â bod â grwpiau wedi'u neilltuo ar gyfer materion plant a phobl ifanc, rhaid i fyrddau ymgysylltu ag ystod eang o bobl ifanc o'r rhanbarth cyfan. Dylai is-grwpiau penodol y Byrddau fod yn gyfrifol hefyd am sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod plant a phobl ifanc yn cael y sgiliau a'r llwyfan i gyd-gynhyrchu elfennau o'r gwaith. Dylen nhw ofyn i bobl ifanc sut maen nhw am gael eu cynnwys yng ngwaith y Bwrdd, mewn modd sy'n ennyn eu diddordeb. Ni ddylai unrhyw Fwrdd gwneud penderfyniadau heb glywed gan blant a phobl ifanc yn uniongyrchol.

Transitions for Children and Young People with learning disabilities

There needs to be a conscious effort by RPBs to focus on transition to adult services as I have seen little evidence of region-wide approaches which sufficiently plan for children and young people with learning disabilities. Transition arrangements for children with complex needs more broadly should be part of the core business of RPBs, and I am pleased to see this recognised by the new statutory guidance. What we need to see is multi-disciplinary pathways involving health, education and social services. This will usually be most efficient and effective if the same processes are in place across the region. This would mean that there is more consistency for health board staff, and could be more efficient in commissioning voluntary sector support, accommodation or training opportunities, for example.

Argymhelliad 1: Fel rhan o'n hymateb cenedlaethol i anghenion iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc wedi'r cyfnod hwn o gyfyngiadau symud, dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynllunio a gweithredu dull 'dim drws anghywir' o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, a allai gynnwys timau integredig a modelau panel a hwb i ddarparu cymorth cydlynus yn brydlon, canolfannau galw heibio, a chynlluniau ar gyfer darpariaeth breswyl integredig lle bo angen. Dylai pob Bwrdd adolygu eu Cynllun Ardal cyfredol i sicrhau eu bod yn cymryd camau digonol i roi sylw i anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, a bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyflawni hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried y Cynllun yng ngoleuni pandemig Covid-19 ac effaith hynny ar y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynllun Ardal, a strategaethau tymor hwy.

Argymhelliad 2: Bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda'u strategaethau tymor hir. Bydd mwy o angen y gefnogaeth hon yn awr nag erioed oherwydd yr amgylchiadau presennol, a dylid egluro sut bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i sicrhau gwell profiadau a chanlyniadau i blant a'u teuluoedd. Dylai hyn gynnwys newid i'r system a fydd yn helpu teuluoedd i brofi dull gweithredu 'dim drws anghywir' ym mhob rhanbarth, megis timau integredig, modelau hwb a phanel i ddarparu cymorth cydlynus yn brydlon, canolfannau galw heibio a chynlluniau ar gyfer darpariaeth breswyl integredig lle bo angen.

Argymhelliad 3: Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol Rhan 9 sydd newydd eu diwygio trwy wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw cyllid i'w weld yn cael ei 'gadw' gan naill ai'r bwrdd iechyd na'r awdurdod lleol, a bod y trefniadau hyn yn destun cytundeb ysgrifenedig rhwng partneriaid. Dylai'r cronfeydd fod yn eiddo i'r rhanbarth cyfan, a dylai pob gwasanaeth deimlo bod ganddyn nhw gyfran gyfartal.
- Yng ngoleuni'r gofyniad statudol newydd i estyn dyletswyddau adran 12 i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylai pob Bwrdd adolygu eu trefniadau cyfredol ar gyfer ymgysylltu â chynhyrchu ar y cyd gyda phlant a phobl ifanc. Dylai BPRhau ddefnyddio fframwaith *Y Ffordd Gywir* i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, a fydd yn tywys eu dull o weithio gyda phlant a phobl ifanc⁵⁰, a hefyd y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol⁵¹. Mae'n rhaid i hyn cynnwys y Bwrdd ei hun yn gwrando ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol, a bod plant a phobl ifanc yn cael y pwêr i siapio gwaith y Bwrdd.
- Fel rhan o'u dyletswydd i gefnogi trefniadau pontio effeithiol, integredig o'r gwasanaethau plant i wasanaethau oedolion, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi protocolau pontio amlasiantaeth, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, gan ystyried sut mae cyflwyno dull gweithredu fel bod y problemau lluosog, ystyfnig o ran anghysondebau sy'n ymwneud â lle mae pobl yn byw, a threfniadau pontio ar draws ffiniau a sectorau yn cael eu hintegreiddio gymaint â phosibl.

Cyfuno cyllid a chomisiynu ar y cyd

Rhaid gwneud mwy i annog a hwyluso cyfuno cyllid a chomisiynu ar y cyd. Ddylen ni ddim bod yn gweld sefyllfaoedd lle nad yw awdurdodau lleol yn cytuno ar rannu adnoddau ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol sy'n amlwg o fudd i'r rhanbarth cyfan. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i fynnu bod cyllid yn cael ei gyfuno ac i annog comisiynu ar y cyd.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru newid y *Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth* i fynnu bod cyllid yn cael ei gyfuno i greu dull 'dim drws anghywir' ar gyfer plant a phobl ifanc.

Darpariaeth breswyl ar gyfer plant ag anghenion cymhleth sy'n darparu gofal a chymorth ar gyfer anghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol

Os nad ydyn nhw eisoes wedi gwneud hynny, dylai BPRhau gynnal dadansoddiad llawn o'r ddarpariaeth a chyflwyno datganiad sefyllfa ar gyfer y rhanbarth cyfan, fel bod modd gwneud cynlluniau ynghylch darparu'r model integredig gorau posibl. Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau creu'r ddarpariaeth hollbwysig hon yma yng Nghymru cyn gynted ag y mae'r fîm adolygu llety diogel wedi cwblhau eu gwaith. Rhaid i'r gwaith hwn gyflymu'n gyson nawr. Mae'r argyfwng presennol wedi amlygu'r diffyg o ran y ddarpariaeth hon, gan fod unedau cleifion mewnol wedi cael trafferth darparu gwasanaeth i'r holl blant a phobl ifanc sydd angen cael eu derbyn. Nododd rhai BPRhau pan gwrddon ni â nhw eu bod yn 'barod ac

⁵⁰ Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Y Ffordd Gywir*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/>

⁵¹ Llywodraeth Cymru (2016), Cael llais, cael dewis: safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc>

yn fodlon' i ddechrau gweithio ar y cyfleusterau hyn. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r rhanbarthau er mwyn gwireddu'r cynlluniau cyn gynted ag y bydd yr adolygiad wedi dod i ben.

Argymhelliad 5: Rhaid i adolygiad cyfredol Llywodraeth Cymru o 'lety diogel' arwain at gamau pendant i ddatblygu darpariaeth breswyl newydd yng Nghymru ar gyfer plant ag anghenion cymhleth adeg cyflwyno'r adroddiad.

Trylowyder ac atebolrwydd

Dylai plant a phobl ifanc a'u teuluoedd fedru cael mynediad hwylus at ddogfennau sy'n dweud wrthyn nhw pa waith mae eu BPRh yn ei wneud iddyn nhw. Ar ben hynny, dylai teuluoedd fedru cyrchu gwybodaeth am lwybrau gofal ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol yn ddiffwdan. Byddai hyn nid yn unig yn helpu i hysbysu teuluoedd yn fwy cyffredinol, byddai hefyd yn golygu bod ganddyn nhw well dealltwriaeth o sut mae gofal integredig yn cael ei lunio o'u cwmpas, yn hytrach na gweld apwyntiad CAMHS neu diagnosis fel 'tocyn aur' i gael yr help mae arnyn nhw ei angen.

Argymhelliad 6: Fel cyllidwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru gwneud ei chyfrifoldebau yn glir o ran y fframwaith y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio o fewn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd cadarn yn eu lle er mwyn i'r Byrddau adrodd ar eu gwaith ynghylch trefniadau amlasiantaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pontio i wasanaethau oedolion. Dylai hyn gynnwys adolygu Cynlluniau Ardal BPRhau yn rhagweithiol a monitro cynnydd yn erbyn eu huchelgeisiau trwy Adroddiadau Blyneddol a chyfarfodydd.

Argymhelliad 7: Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2) i archwilio sut gallan nhw drefnu gwaith y BPRhau yn well a hysbysebu gwaith a rôl y Byrddau yn well mwyn iddyn nhw fod yn fwy hygyrch i deuluoedd. Dylai hynny gynnwys disgrifiadau hygyrch o lwybrau amlasiantaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â'r prosiectau hynny sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a'u teuluoedd.

Cynrychiolaeth dinasyddion a'r trydydd sector ar y Byrddau

Dywedodd cynrychiolwyr dinasyddion a rhanddeiliaid trydydd sector wrthyn ni fod dim digon o gynrychioli materion plant a phobl ifanc ar y byrddau, na digon o gynrychiolaeth ac ymgysylltu â'r trydydd sector, sy'n darparu mewnbwn oherwydd bod ganddyn nhw drosolwg o'r gwasanaethau plant. Dylai pob BPRh adolygu ei aelodaeth bresennol o'r trydydd sector mewn perthynas â phlant ag anghenion cymhleth, a chan bobl broffesiynol sy'n gweithio'n benodol gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd. Dylen nhw hefyd adolygu eu dull o gynnwys cynrychiolwyr dinasyddion.

Argymhelliad 8: Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda chynrychiolwyr dinasyddion a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn gwaith ystyrlon fel rhan o'r Bwrdd, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn fel partneriaid cyfartal gan yr aelodau statudol.

Cyfleoedd i rannu dysgu

Dylid creu cyfleoedd pellach i FPRhau ddysgu oddi wrth ei gilydd yng nghyswllt eu dulliau o integreiddio gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Byddai'r ymarferiad hwn yn caniatáu ar gyfer adolygiad cynhwysfawr o'r rhwystrau mae BPRhau yn eu hwynebu, a beth fyddai'n helpu i'w goresgyn. Gallai'r ymarferiad rhannu dysgu hwn gael ei seilio ar argymhellion yr adroddiad hwn.

Iaith a rennir

Er y bydd byrddau'n rhoi blaenoriaeth i ymdrin â materion ar gyfer plant ag anghenion cymhleth mewn gwahanol ffyrdd, mae'n bwysig bod dealltwriaeth a rennir ar draws rhanbarthau, ac ar draws gwasanaethau (yn arbennig iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg), o ran yr hyn mae anghenion cymhleth yn ei olygu a sut rydyn ni'n ymateb i'r anghenion hynny, ac i bwysleisio bod rhaid sicrhau diffiniad eang sy'n seiliedig ar brofiad y plentyn a'r teulu. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â BPRhau ynghylch sut mae gwreiddio'r ddealltwriaeth hon a rennir ar draws gwasanaethau.

Rhannu gwybodaeth ac adnoddau

Ddylen ni ddim bod mewn sefyllfaoedd lle mae gwasanaethau'n cael eu dwyn ynghyd i roi ymateb amlasiantaeth i anghenion plentyn unigol, heb i bawb fedru cael mynediad i'r un wybodaeth. Ddylen ni ddim chwaith fod yn dal i ddadlau ynghylch defnyddio adnoddau y dylid eu gweld fel rhai a rennir yn rhanbarthol, yn hytrach na bod yn eiddo i asiantaethau unigol.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2) weithio gyda'u partneriaid a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i drefnu digwyddiadau dysgu a rennir pellach a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddull 'dim drws anghywir' ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Dylai'r digwyddiadau dysgu a rennir hyn gynnwys trafodaeth ar y rhwystrau rhwng defnydd gwasanaethau o iaith (yn arbennig yng nghyswllt iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, ond heb ei gyfyngu i hynny) ynghylch plant ag anghenion cymhleth, er mwyn hybu'r diffiniad newydd ehangach o dan ganllawiau statudol diwygiedig Rhan 9, yn ogystal â chael eu tywys gan ddiffiniad Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru. Dylai'r digwyddiadau hefyd gynnwys trafodaethau ar sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ac adnoddau'n cael eu cyfuno, ac a oes angen gwella'r system bresennol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Perthynas â phartneriaethau strategol eraill

Dylid sicrhau cydweithio agosach rhwng BPRhau a BGCau lle nad yw hynny eisoes yn digwydd, i osgoi dyblygu gwaith, ac i sicrhau, lle bo cyllid ar gael, ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau ar sail anghenion poblogaeth yr ardal honno.

Argymhelliad 10: Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar faterion a allai orgyffwrdd, lle roedd y rhain yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cytundeb ar sut i ymdrin â'r materion hynny a fyddai'n elwa o weithio

ar y cyd rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, megis rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn cynnig am gyllid neu gomisiynu ar y cyd.

Atodiadau

Atodiad 1 – Geirfa

Plant ag anghenion cymhleth: Mae hyn yn cyfeirio at gymhlethdod y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion plentyn, yn hytrach na chyfeirio at y plentyn ei hun fel 'cymhleth'.

Plant ag anableddau dysgu: Anabledd dysgu yw gallu deallusol wedi'i leihau ac anhawster gyda gweithgareddau pob dydd – er enghraifft tasgau yn y cartref, cymdeithasu neu reoli arian – sy'n effeithio ar rywun ar hyd eu hoes. Mae mwy o gyd-destun ynghylch y materion sy'n effeithio ar blant ag anableddau dysgu a'r gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnynt ar gael gan Mencap⁵².

Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Gwasanaethau yw'r rhain i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anhwylder niwroddatblygiadol, sy'n cynnwys Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD), Anhwylder Gorfywiogrwydd/Diffyg Canolbwyntio (ADHD) a Syndrom Tourette.

Ymddygiad heriol / problemau ymddygiad a thrawma: Yn achos y plant hynny sydd ag anghenion cymhleth, sydd yn aml yn gysylltiedig â thrawma, sy'n gallu arwain ymlaen at yr hyn a elwir yn aml yn broblemau 'emosiynol ac ymddygiadol'. Gall y term 'ymddygiadol' fod yn broblematig oherwydd gellir barnu ei fod yn gosod y cyfrifoldeb ar y plentyn a'i 'ymddygiad'. Fodd bynnag, mae'n dderm sy'n disgrifio gweithredoedd gan y plentyn neu'r person ifanc y mae'n anodd ymateb yn ddiogel iddynt, a gallant beryglu eu hunain ac eraill. Bydd yr adroddiad hwn yn tueddu i gyfeirio at 'lesiant emosiynol', a dylid darllen hynny i gynnwys 'ymddygiad sy'n herio' neu 'materion ymddygiad'.

⁵² <https://www.mencap.org.uk/learning-disability-explained/what-learning-disability>

Appendix 2 – Esiampl o lythyr a anfonwyd ar yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Awst 2019

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

At: Cadeirydd Bwrdd
Partneriaid Rhanbarthol
Gwent

Drwy ebost yn unig

6 Awst 2019

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am gytuno i gwrdd â mi ac aelodau o'm ffin yr hydref yma.

Fel y gwyddoch, rydyn ni'n ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddysgu mwy am waith pob bwrdd yn cyflawni'r flaenoriaeth o sefydlu gwasanaethau integredig ar gyfer 'plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch ac ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl', fel y nodwyd yn [Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 — Rhan 9 Canllawiau Statudol \(Trefniadau Partneriaeth\)](#).

Rwy'n edrych ar waith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y maes hwn oherwydd fy mod i'n gwybod bod yr hyn sy'n cael ei gynni i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn edrych yn wahanol ar draws Cymru, ac rwyf am i blant a phobl ifanc gael y gofal gorau posibl ble bynnag yn y wlad maen nhw'n byw.

Fy nodau ar gyfer y gwaith hwn yw:

- Creu darlun o'r heriau a'r cyfleoedd wrth ddatblygu gwasanaethau amlasiantaeth sy'n ymateb i anghenion plant sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl
- Darganfod enghreifftiau o ddatblygiadau addawol y gellir eu rhannu mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru
- Archwilio'r trefniadau presennol ar gyfer trafod a gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau plant ym mhob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Annog rhoi blaenoriaeth i'r materion hyn gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol



Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

Croeso'n ddwyieithus i'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amrywiol fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

Isod mae tair astudiaeth achos sy'n dangos rhai o'r profiadau mae pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hwynebu. Mae'r rhain yn astudiaethau achos go iawn, sy'n cael eu cyflwyno yn gwbl ddiennw yma, a fu'n derbyn sylw gan fy Ngwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol.

Enghreifftiau o achosion diweddar

Astudiaeth Achos A

Roedd Plentyn A ar fin bod yn 18 pan gysylltodd â'n swyddfa. Mae'n dioddef o gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, ac roedd wedi bod yn yr un lleoliad maeth (y tu allan i'r sir) ers nifer sylweddol o flynyddoedd. Y prif ddim gwasanaethau cymdeithasol oedd y ffin anabledd plant.

Y cynllun oedd y byddai'r person ifanc yma'n aros gyda'r gofalwyr maeth, a fyddai'n troi'n ofalwyr Bywydau a Rennir. Dadgofrestrodd y gofalwyr maeth o'r rôl honno er mwyn gallu cael eu hasesu fel gofalwyr Bywydau a Rennir, fel bod y person ifanc yn gallu aros yn eu gofal. Ni chynhaliwyd yr asesiad, ac roedd y person ifanc yn awr mewn lleoliad gyda gofalwyr oedd heb eu cofrestru.

Cymhlethdod ychwanegol yn yr achos hwn oedd bod gan y person ifanc anghenion iechyd sylweddol ac roedd y ddau Fwrdd Iechyd Lleol dan sylw yn dadlau ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am anghenion iechyd y person ifanc yma nawr, ar ôl troi'n oedolyn.

Astudiaeth Achos B

Roedd Plentyn B wedi cymryd gorddos a arweiniodd at dderbyn y person ifanc i'r ysbyty. Ers rhyddhau o'r ysbyty, nid yw Plentyn B wedi derbyn unrhyw gefnogaeth, er i'r teulu gael eu hysbysu y byddai modd i'r person ifanc gael cefnogaeth yn y gymuned.

Galwodd y teulu y gwasanaeth CAMHS lleol, ac fe wnaethon nhw arddedall bod Plentyn B ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiad gyda CAMHS, ond bod dim modd iddyn nhw roi dyddiad.

Roedd yr ysgol yn ymwybodol o'r sefyllfa, ond roedd rhestr aros ar gyfer eu cwnselydd yn ogystal.



Fe wnaeth y gwasanaethau cymdeithasol ddweud wrth y teulu mai cyfrifoldeb CAMHS yw cefnogi Plentyn B ac o ganlyniad wnaethon nhw ddim cynnig unrhyw gefnogaeth.

Mae Plentyn B wedi dweud wrth y teulu bod y meddyliau arweiniodd at y gorddos wedi dod nôl, ac roedd y teulu'n bryderus dros ben oherwydd eu bod wedi methu cael unrhyw gefnogaeth ar gyfer Plentyn B. Mae'r teulu wedi dweud wrthyn ni bod Plentyn B wedi cael ei ryddhau o'r ysbyty heb unrhyw wybodaeth ynghylch beth i'w wneud os daw symptomau'r person ifanc yn ôl cyn iddyn nhw gael apwyntiad CAMHS.

Astudiaeth Achos C

Cysylltodd Plentyn C, sy'n 16 oed, â'n gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor o ysbyty lle roedd yn cael ei gadw o dan adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid yw Plentyn C wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol. Roedd Plentyn C wedi cael ei symud i'r ysbyty yn dilyn digwyddiad mewn uned i gleifion preswyl iechyd meddwl sy'n blant ac yn bobl ifanc, lle roedd y person ifanc wedi torri drysau mewn ymgais i ddianc, ac ymosod ar aelod o'r heddlu pan gyrhaeddodd nhw i'w symud.

Cafodd Plentyn C ei roi yn yr ysbyty, ar ward oedolion, dan oruchwyliaeth dau aelod o staff asiantaeth o'r uned iechyd meddwl yr oedd wedi bod ynddi. Ni allai Plentyn C ddychwelyd i'r uned oherwydd eu bod nhw'n methu rheoli ymddygiad y person ifanc.

Symudwyd Plentyn C i ysbyty arall, eto ar ward oedolion, cafodd ei leoli ar wahân, ac mae yng ngofal yr un staff asiantaeth ag erioed. Trefnwyd cyfarfod amlasiantaeth i gytuno ar y camau nesaf. Roedd 16 o weithwyr proffesiynol yn bresennol yn y cyfarfod, gan gynnwys un o CAMHS lleol y plentyn, yr adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, ac un o'u cyfreithwyr. Cadeirydd y cyfarfod oedd Cyfarwyddwr Clinigol CAMHS ym mwrdd iechyd y plentyn. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn honni eu bod wedi methu cadw Plentyn C mewn unrhyw fath o lety diogel gan fod y person ifanc ar fin bod yn 17, a heb fod yn destun Gorchymyn Gofal.

Fy nghais i chi

Er mwyn i mi fedru penderfynu a yw'r Byrddau'n gwneud cynnydd sylweddol ac effeithiol ar integreiddio gwasanaethau i blant sydd ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch, ac ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â



phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys trefniadau pontio, fel sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau statudol y cyfeiriwyd atynt eisoes, byddai gen i ddiddordeb mewn clywed mwy pan fyddwn ni'n cwrdd am y canlynol mewn perthynas â'r astudiaethau achos uchod:

1. Asesiad aelodau eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o debygolrwydd sefyllfaoedd o'r fath yn digwydd yn eich rhanbarth chi ar hyn o bryd. Pa ddarpariaeth sydd gennych chi a allai gynorthwyo'r bobl ifanc hyn? Sut byddech chi'n asesu effeithiolrwydd eich bwrdd yn awr ac yn y dyfodol o ran sicrhau nad yw pobl ifanc yn 'syrthio trwy'r bylchau' oherwydd trothwyon gwasanaeth? Os na ellir dod i benderfyniad a chytuno ar gynllun gofal, beth yw'r canlyniad i'r person ifanc?
2. Gwybodaeth am y strwythurau llywodraethu sydd ar waith gennych i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau ar gyfer anghenion y grŵp hwn, a'r trefniadau mwy penodol a luniwyd ar gyfer y grŵp hwn, yn arbennig y rhai sydd ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl.
3. Gwybodaeth ynghylch trefniadau gwasanaeth integredig i gefnogi plant ag anableddau dysgu wrth bontio i oedolaeth, yn ogystal â threfniadau gofal cyfannol cyffredinol (fel yr amlygwyd yn fy adroddiad yn 2018, [*Paid Dal yn ôl*](#))
4. Manylion y strwythurau cefnogaeth sydd yn eu lle i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl, emosiynol ac ymddygiad, a all fod yn rhan o anghenion cymhleth ehangach, a hynny o ran:
 - a. 'Canol Coll' y rhai sydd ddim yn cyrraedd y trothwy ar gyfer CAMHS arbenigol ond sydd angen ymyriadau therapiwtig ac eraill; a
 - b. anghenion gofal a iechyd meddwl y nifer bach o bobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiad ac emosiynol heriol dros ben, nad oes fawr ddim darpariaeth breswyl addas ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd

Rydyn ni'n gobeithio bydd amser i drafod ymhellach pan fyddwn ni'n cwrdd. I sicrhau ein bod ni'n gwneud y gorau o'r amser yn y cyfarfod, hoffwn petasech yn danfon dogfen — dim mwy na 4 ochr o A4 — cyn y cyfarfod ei hun, sy'n crynhoi eich hymatebion i'r cwestiynnau uchod. Efallai y byddwch am ddilyn



Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

ymlaen o'r cyfarfod drwy ddarparu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig am waith y Bwrdd a'i gynlluniau i'r dyfodol yng nghyswllt y 4 cais uchod.

Yn ogystal ag ymweld â phob Bwrdd, byddai i'n gweithio i gasglu profiadau plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei dadansoddi, ac rwy'n bwriadu cyflwyno fy nghanfyddiadau yn gynnar yn 2020, ynghyd ag unrhyw argymhellion perthnasol.

Rwy'n gobeithio bydd yr wybodaeth hon o gymorth cyn ein cyfarfod. Diolch eto am fod yn barod i gwrdd â ni. Rwy'n edrych ymlaen at ein hymweliad.

A fydddech cystal â danfon eich ymateb ysgrifennedig neu unrhyw ymholiadau pellach at fy mhrif Ymgynghorydd Polisi ar gyfer y gwaith hwn, Kirrin Davidson, ar 01792 765600 neu Kirrin.davidson@complantcymru.org.uk

Yn gywir,



Sally

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Atodiad 3 – Crynodeb o'r Argymhellion

Addewid gan y Comisiynydd Plant, Sally Holland:

"Byddaf yn cwrdd â'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 i ddilyn ymlaen o'r darn yma o waith, ac yn benodol i wirio cynnydd yn erbyn yr argymhellion canlynol. Byddaf yn gwahodd â phobl ifanc i gwrdd â'r Byrddau hefyd fel eu bod nhw'n cael cyfle i graffu ar gynnydd pob Bwrdd."

Argymhellion ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol:

1. Fel rhan o'n hymateb cenedlaethol i anghenion ieuchyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc wedi'r cyfnod hwn o gyfyngiadau symud, dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynllunio a gweithredu dull 'dim drws anghywir' o ymdrin â ieuchyd meddwl a llesiant, a allai gynnwys timau integredig a modelau panel a hwb i ddarparu cymorth cydlynus yn brydlon, canolfannau galw heibio, a chynlluniau ar gyfer darpariaeth breswyl integredig lle bo angen. Dylai pob Bwrdd adolygu eu Cynllun Ardal cyfredol i sicrhau eu bod yn cymryd camau digonol i roi sylw i anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, a bod awdurdodau lleol a byrddau ieuchyd lleol yn wir yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyflawni hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried y Cynllun yng ngoleuni pandemig Covid-19 ac effaith hynny ar y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynllun Ardal, a strategaethau tymor hwy.
2. Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol Rhan 9 sydd newydd eu diwygio trwy wneud y canlynol:
 - o Sicrhau nad yw cyllid i'w weld yn cael ei 'gadw' gan naill ai'r bwrdd ieuchyd na'r awdurdod lleol, a bod y trefniadau hyn yn destun cytundeb ysgrifenedig rhwng partneriaid. Dylai'r cronfeydd fod yn eiddo i'r rhanbarth cyfan, a dylai pob gwasanaeth deimlo bod ganddyn nhw gyfran gyfartal.
 - o Yng ngoleuni'r gofyniad statudol newydd i estyn dyletswyddau adran 12 i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylai pob Bwrdd adolygu eu trefniadau cyfredol ar gyfer ymgysylltu â chynhyrchu ar y cyd gyda phlant a phobl ifanc. Dylai BPRhau ddefnyddio fframwaith *Y Ffordd Gywir* i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, a fydd yn tywys eu dull o weithio gyda phlant a phobl ifanc⁵³, a hefyd y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Mae'n rhaid i hyn cynnwys y Bwrdd ei hun yn gwrando ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol, a bod plant a phobl ifanc yn cael y pwêr i siapio gwaith y Bwrdd.
 - o Fel rhan o'u dyletswydd i gefnogi trefniadau pontio effeithiol, integredig o'r gwasanaethau plant i wasanaethau oedolion, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi protocolau pontio amlasiantaeth, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, ar gyfer plant a phobl ifanc

⁵³ Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Y Ffordd Gywir*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/>

ag anableddau dysgu, gan ystyried sut mae cyflwyno dull gweithredu fel bod y problemau lluosog, ystyfnig o ran anghysondebau sy'n ymwneud â lle mae pobl yn byw, a threfniadau pontio ar draws ffiniau a sectorau yn cael eu hintegreiddio gymaint â phosibl.

3. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2) i archwilio sut gallan nhw drefnu gwaith y BPRhau yn well a hysbysebu gwaith a rôl y Byrddau yn well mwyn iddyn nhw fod yn fwy hygyrch i deuluoedd. Dylai hynny gynnwys disgrifiadau hygyrch o lwybrau amlasiantaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â'r prosiectau hynny sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a'u teuluoedd.
4. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda chynrychiolwyr dinasyddion a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn gwaith ystyrion fel rhan o'r Bwrdd, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn fel partneriaid cyfartal gan yr aelodau statudol
5. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar faterion a allai orgyffwrdd, lle roedd y rhain yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cytundeb ar sut i ymdrin â'r materion hynny a fyddai'n elwa o weithio ar y cyd rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, megis rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn cynnig am gyllid neu gomisiynu ar y cyd.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

1. Fel cyllidwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru gwneud ei chyfrifoldebau yn glir o ran y fframwaith y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio o fewn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd cadarn yn eu lle er mwyn i'r Byrddau adrodd ar eu gwaith ynghylch trefniadau amlasiantaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pontio i wasanaethau oedolion. Dylai hyn gynnwys adolygu Cynlluniau Ardal BPRhau yn rhagweithiol a monitro cynnydd yn erbyn eu huchelgeisiau trwy Adroddiadau Blynnyddol a chyfarfodydd.
2. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda'u strategaethau tymor hir. Bydd mwy o angen y gefnogaeth hon yn awr nag erioed oherwydd yr amgylchiadau presennol, a dylid egluro sut bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i sicrhau gwell profiadau a chanlyniadau i blant a'u teuluoedd. Dylai hyn gynnwys newid i'r system a fydd yn helpu teuluoedd i brofi dull gweithredu 'dim drws anghywir' ym mhob rhanbarth, megis timau integredig, modelau hwb a phanel i ddarparu cymorth cydlynus yn brydlon, canolfannau galw heibio a chynlluniau ar gyfer darpariaeth breswyl integredig lle bo angen.
3. Dylai Llywodraeth Cymru newid y *Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac Asesiadau Poblogaeth* i fynnu bod cyllid yn cael ei gyfuno i greu dull 'dim drws anghywir' ar gyfer plant a phobl ifanc.

4. Rhaid i adolygiad cyfredol Llywodraeth Cymru o 'lety diogel' arwain at gamau pendant i ddatblygu darpariaeth breswyl newydd yng Nghymru ar gyfer plant ag anghenion cymhleth adeg cyflwyno'r adroddiad.
5. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2) weithio gyda'u partneriaid a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i drefnu digwyddiadau dysgu a rennir pellach a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddull 'dim drws anghywir' ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Dylai'r digwyddiadau dysgu a rennir hyn gynnwys trafodaeth ar y rhwystrau rhwng defnydd gwasanaethau o iaith (yn arbennig yng nghyswllt iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, ond heb ei gyfyngu i hynny) ynghylch plant ag anghenion cymhleth, er mwyn hybu'r diffiniad newydd ehangach o dan ganllawiau statudol diwygiedig Rhan 9, yn ogystal â chael eu tywys gan ddiffiniad Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru. Dylai'r digwyddiadau hefyd gynnwys trafodaethau ar sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ac adnoddau'n cael eu cyfuno, ac a oes angen gwella'r system bresennol ar gyfer rhannu gwybodaeth.